Cyllid &
Thollau EM

Cael eich ffurflen gais am gredydau treth yn gywir

Withdrawn

Cam 1
Gwnewch yn siŵr fod gennych yr holl ddogfennau sydd eu hangen arnoch i lenwi'r ffurflen gais.

Cam 2
Atebwch yr holl gwestiynau perthnasol ar y ffurflen gais. Os nad ydych yn siŵr beth i'w roi wrth lenwi'r ffurflen, gadewch y blwch yn wag. Gwnewch gofnod o rif y blwch a pharhau. Pan fyddwch wedi gwneud cymaint ag y gallwch, ffoniwch ni am gymorth gyda'r blychau yr ydych wedi'u gadael yn wag.

Cam 3
Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau perthnasol, gan gynnwys manylion am eich holl blant, a'ch bod chi a'ch partner (os oes gennych un) wedi llofnodi'r datganiad ar dudalen 11.

Cam 4
Anfonwch y ffurflen gais wedi'i llenwi yn yr amlen a ddarperir - bydd angen rhoi stamp arni.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch chi, ewch i www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits

Dogfennau y byddwch chi eu hangen o bosibl i'ch helpu i lenwi eich ffurflen gais

- **P60** ☐
- **P45** ☐
- **Slipiau cyflog** ☐
- **Cyfeirnod treth TWE y cyflogwr** ☐
- **Eich cyfrifon busnes** ☐
- **Manylion gofal plant** ☐

Gwybodaeth bwysig

Llenwch eich ffurflen gais am gredydau treth yn ofalus.
Os bydd unrhyw wybodaeth yn anghywir neu ar goll, gallai hynny beri oedi gyda'ch cais. O ganlyniad, mae'n bosibl na fyddwch yn cael y swm cywir o arian.

Ôl-ddyddio eich cais

Fel arfer, ni allwn ôl-ddyddio eich credydau treth fwy na 31 diwrnod o'r dyddiad y byddwn yn cael eich cais. I osgoi colli arian, sicrhewch eich bod yn gwneud cais ar unwaith.

Bydd yn rhaid i chi wneud cais am ôl-ddyddio os bydd un o'r canlynol yn gymwys. Rydych chi'n:

- cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Pensiwn
- hawlio Credyd Treth Gwaith yn unig a heb dderbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm, na Chredyd Pensiwn yn y 31 diwrnod diwethaf
- hawlio naill ai Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant neu'r ddau, ac wedi dod oddi ar Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm, neu Gredyd Pensiwn yn y 31 diwrnod diwethaf

I wneud cais am ôl-ddyddio, atodwch ddalen arall o bapur i'ch ffurflen gais yn nodi:

- eich enw, cyfeiriad a rhif Yswiriant Gwladol
- y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio, neu'r dyddiad y gwnaethoch ddechrau cael un o'r budd-daliadau a restrir uchod

Weithiau, gellir ôl-ddyddio ceisiadau am gredydau treth fwy na 31 diwrnod os byddwch yn gwneud cais o fewn mis i'r penderfyniad sy'n dyfarnu rhai budd-daliadau salwch neu anabledd cymwys i chi - er enghraifft, Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol. Dywedwch wrthym o ba ddyddiad y dyfarnwyd eich budd-dal, os yw hyn yn berthnasol i chi.

Ceir rhagor o wybodaeth am ôl-ddyddio eich cais yn www.gov.uk/claim-tax-credits/backdate-a-claim

Gwneud cais fel cwpl neu unigolyn sengl

Mae'n bwysig eich bod yn deall y gwahaniaeth rhwng gwneud cais fel unigolyn sengl a gwneud cais fel cwpl. Os cewch hwn yn anghywir, gallech gronni gordaliad ac efallai y bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl. Efallai hefyd y bydd yn rhaid i chi dalu cosb.

Rhaid i chi wneud cais fel cwpl os ydych yn briod, yn byw gyda rhywun fel petaech yn briod, neu'n rhan o bartneriaeth sifil. Dylech wneud cais ar y cyd fel cwpl o hyd, hyd yn oed os ydych yn byw ar wahân dros dro. Er enghraifft, os yw un ohonoch yn gweithio oddi cartref.

Os ydych yn hawlio fel rhan o gwpl, mae'n rhaid i chi benderfynu ar y cychwyn manylion pwy sy'n mynd i'r golofn 'CHI' a phwy sy'n mynd i'r golofn 'EICH PARTNER'. Nid oes gwahaniaeth pwy sy'n mynd i ba golofn cyhyd â'ch bod yn cadw at yr un golofn drwy gydol y ffurflen. Mae'n rhaid i chi roi manylion y ddau ohonoch yn y ddwy golofn, hyd yn oed os oes rhai manylion, megis eich cyfeiriad er enghraifft, yr un peth.

Os nad oes partner gennych, dylech wneud cais unigol ar sail eich amgylchiadau unigol. Os ydych wedi gwahanu yn gyfreithlon neu mae eich gwahaniad yn debygol o fod yn barhaol, dylech wneud cais fel unigolyn. Er enghraifft, os ydych yn y broses o gael ysgariad.

Mae'n bosibl y codir cosb arnoch o hyd at £3,000 os rhowch wybodaeth anghywir naill ai:

- trwy dwyll (ar bwrpas)
- trwy esgeulustod (ni wnaethoch gymryd digon o ofal)

Ni chewch gosb os gwnaethoch gamgymeriad tra'n cymryd gofal rhesymol wrth wneud cais.

Ceir rhagor o wybodaeth am wneud cais fel cwpl yn www.gov.uk/claim-tax-credits/joint-claims

Withdrawn

Tudalen 1 o'ch ffurflen gais - Manylion personol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r cyfeiriad llawn a'r rhif Yswiriant Gwladol ar eich cyfer chi a'ch partner. Fel arall, gallai hynny beri oedi gyda'ch cais.

1.1 Cyfenw
Fel mae'n ymddangos ar ddogfennau swyddogol, fel pasbort, tystysgrif geni neu dystysgrif priodas. Os yw eich cyfenw yn rhy hir i'w roi fan hyn, parhewch o dan y blychau.

1.2 Enw(au) cyntaf
Os oes gennych lawer o enwau cyntaf, nodwch y rhai y mae lle iddynt yn unig.

1.3 Cyfeiriad

1.3 **Cyfeiriad**
Cod post
P R 1 1 4 A T
Rhif y tŷ
1 3 7
Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat
2B HEOL TREF

1.4 Dyddiad geni
Fel mae'n ymddangos ar ddogfennau swyddogol, fel tystysgrif geni neu basbort.
Cofiwch ysgrifennu'r dyddiad fel hyn:
30 09 1970


Cyllid & Thollau EM

Cais am gredydau treth 2018
Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2018 i 5 Ebrill 2019

Defnyddiwch y ffurflen hon rhwng 6 Ebrill 2018 a 5 Ebrill 2019 i wneud cais am gredydau treth.
Pan fyddwn ni'n cyfeirio at 'gweler y nodiadau' ar y ffurflen hon byddwn yn cyfeirio at y nodiadau 'Cael eich ffurflen gais am gredydau treth yn gywir', er mwyn eich helpu. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900 (neu ffôn testun 0345 300 3909) rhwng 08:30 a 17:00. Am wasanaeth Saesneg ffoniwch 0345 300 3900.

Mae'n rhaid i gyplau wneud cais am gredydau treth ar y cyd. Rydych yn rhan o gwpl os ydych yn un o'r canlynol:
- yn briod
- mewn partneriaeth sifil
- yn byw gyda rhywun fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil

Mae gwybodaeth am ôl-ddyddio eich cais y tu mewn i glawr y nodiadau.

Llenwi'r ffurflen hon
Caiff y ffurflen hon ei darllen gan beiriant felly mae'n bwysig eich bod yn:
- ysgrifennu mewn priflythrennau gan ddefnyddio inc du
- ysgrifennu'n daclus y tu mewn i'r blychau, gan ddefnyddio un blwch ar gyfer pob cymeriad

J O N A T H A N R I C H A R D
- gadael blwch yn wag os nad yw'n berthnasol i chi

Llenwch bob blwch perthnasol yn llawn. Peidiwch ag ysgrifennu 'Amherthnasol' na rhoi llinell drwy flychau nad ydynt yn berthnasol.

Os gwnewch gamgymeriad, rhowch linell drwy'r cofnod ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir o dan y blychau.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, gadewch eich bod wedi llofnodi a dyddio'r DATGANIAD ar dudalen 11, cyn ei dychwelyd yn yr amlen a ddarperir.

RHAN 1 MANYLION PERSONOL

CHI
1.1 Teitl, rhowch MR, MRS, MISS, MS, neu deitl
Enw olaf
1.2 Enw(au)
1.3 Cyfeiriad
Cod post
Rhif y tŷ
Gweddill y cyfeiriad gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat
1.4 Dyddiad geni
D D M M B B B B
1.5 Rhif Yswiriant Gwladol. Gweler y nodiadau ar dudalen 1

EICH PARTNER
1.1 Teitl, rhowch MR, MRS, MISS, MS, neu deitl
Enw olaf
1.2 Enw(au)
1.3 Cyfeiriad – gadewch yn wag os yw'r cyfeiriad yr un peth
Cod post
Rhif y tŷ
Gweddill y cyfeiriad gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat
1.4 Dyddiad geni
D D M M B B B B
1.5 Rhif Yswiriant Gwladol. Gweler y nodiadau ar dudalen 1

Withdrawn

Rhaid i chi ateb cwestiynau sy'n gofyn am ateb tebyg i 'Ydw' neu 'Nac ydw'. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd oedi wrth ymdrin â'ch cais.

Os yw blwch yn gofyn am wybodaeth sydd ddim yn berthnasol i chi na'ch partner, gadewch yn wag.

Os gwnewch gamgymeriad, rhowch linell drwy eich cofnod ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir o dan y blychau.

1 4 2 9 1 9 ~~7 5 3 5~~
7 9 7 5

1.5 Rhif Yswiriant Gwladol
Bydd hwn ar:
- eich tystysgrif P60 gan eich cyflogwr
- eich Hysbysiad o God TWE neu lythyr oddi wrthym
- eich slipiau cyflog o'r gwaith
- llythyr oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Byd Gwaith

Os na allwch roi rhif Yswiriant Gwladol, efallai y bydd oedi wrth ymdrin â'ch cais.

Enghraifft o rif Yswiriant Gwladol

Rhif Yswiriant Gwladol
QQ 12 34 56 A

Tudalen 2 o'ch ffurflen gais - Manylion personol ac anabledd

Cyplau - rhowch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.

1.6 Rhif ffôn
Er mwyn osgoi unrhyw oedi gyda'ch cais, nodwch rifau ffôn y gallwn eu defnyddio i gysylltu â chi'n gyflym os bydd gennym ymholiadau.

1.9 A ydych chi'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer?
Mae'r cwestiwn hwn ynglŷn â'r wlad yr ydych yn byw ynddi'r rhan fwyaf o'r amser. Y Deyrnas Unedig yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

Am ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwiliwch am WTC/FS6

1.12 Os ydych chi (neu'ch partner) yn cael:
- **cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl**
- **elfen byw ddyddiol uwch y Taliad Annibyniaeth Personol**
- **cyfradd Uwch Lwfans Gweini**

Os ydych chi (neu'ch partner) yn cael un o'r budd-daliadau hyn, a'ch bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith, gallwch gael elfen anabledd difrifol y credydau treth.

Os ydych wedi hawlio un o'r budd-daliadau hyn, ond rydych yn aros i glywed a fyddwch yn ei gael, gadewch y blwch hwn yn wag. Unwaith y byddwch yn gwybod bod y budd-dal yn mynd i gael ei dalu i chi, ffoniwch ni i roi gwybod i ni ar ba ddyddiad y bydd yn dechrau.

Os ydych yn cael un o'r budd-daliadau hyn ar ran plentyn, gadewch y blwch hwn yn wag. Gofynnir i chi am hyn yn Rhan 2 o'ch ffurflen gais.


RHAN 1 MANYLION PERSONOL parhad

CHI

1.6 **Rhowch rif ffôn**, efallai y bydd yn rhaid i ni gysylltu â chi
Rhif ffôn yn ystod y dydd yn llawn

Rhif gyda'r hwyr yn llawn - os yw'n wahanol

1.7 **A ydych yn wryw neu'n fenyw?** Rhowch 'X' mewn un blwch
Gwr Benyw

1.8 **A fuoch o dan reolaeth fewnfudo yn y mis diwethaf?**
Gweler y nodiadau ar dudalen 2
Do Na

1.9 **A ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer?**
Gweler y nodiadau ar dudalen 2
Ydw Nac ydw
Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad yr ydych yn byw ynddi fel arfer

1.10 **Rhowch unrhyw enwau eraill yr ydych yn eu defnyddio, neu wedi'u defnyddio, wrth gysylltu ag adrannau'r Llywodraeth.** Er enghraifft, eich enw cyn priodi neu'ch enw priodasol blaenorol

EICH PARTNER

1.6 **Rhowch rif ffôn**, efallai y bydd yn rhaid i ni gysylltu â chi
Rhif ffôn yn ystod y dydd yn llawn

Rhif gyda'r hwyr yn llawn - os yw'n wahanol

1.7 **A ydych yn wryw neu'n fenyw?** Rhowch 'X' mewn un blwch
Gwr Benyw

1.8 **A fuoch o dan reolaeth fewnfudo yn y mis diwethaf?**
Gweler y nodiadau ar dudalen 2
Do Na

1.9 **A ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer?**
Gweler y nodiadau ar dudalen 2
Ydw Nac ydw
Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad yr ydych yn byw ynddi fel arfer

1.10 **Rhowch unrhyw enwau eraill yr ydych yn eu defnyddio, neu wedi'u defnyddio, wrth gysylltu ag adrannau'r Llywodraeth.** Er enghraifft, eich enw cyn priodi neu'ch enw priodasol blaenorol

Anabledd
Gweler y nodiadau ar dudalennau 2 ac 19 i 21, i gael gwybod a ydych yn gymwys i gael mwy o gredydau treth oherwydd anabledd. Os oes gennych blentyn sy'n anabl, rhowch wybod i ni yn RHAN 2.

CHI

1.11 **Os ydych yn gymwys i gael yr elfen anabledd rhowch 'X' yn y blwch hwn**
Gweler y nodiadau ar dudalen 2

1.12 **Os ydych yn cael, ar eich cyfer chi eich hun, cyfradd uchaf elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu elfen byw ddyddiol uwch y Taliad Annibyniaeth Personol neu gyfradd uwch Lwfans Gweini, rhowch 'X' yn y blwch hwn**

EICH PARTNER

1.11 **Os ydych yn gymwys i gael yr elfen anabledd rhowch 'X' yn y blwch hwn**
Gweler y nodiadau ar dudalen 2

1.12 **Os ydych yn cael, ar eich cyfer chi eich hun, cyfradd uchaf elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu elfen byw ddyddiol uwch y Taliad Annibyniaeth Personol neu gyfradd uwch Lwfans Gweini, rhowch 'X' yn y blwch hwn**

PARAU

Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer cyplau â phlant yn unig.

1.13 **A oes un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy ac mae'r person arall yn analluog, yn glaf yn yr ysbyty, yn y carchar naill ai ar remand neu'n cwblhau dedfryd o garchar neu â hawl i Lwfans Gofalwr?** I ddangos pwy sy'n analluog, yn glaf yn yr ysbyty, yn y carchar naill ai ar remand neu'n cwblhau dedfryd o garchar, neu â hawl i Lwfans Gofalwr, rhowch 'X' mewn un blwch yn unig. Gweler y nodiadau ar dudalen 6
Chi Eich partner

Withdrawn

1.13 Cyplau â phlant
Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6 cyn ateb y cwestiwn hwn.

1.8 O dan reolaeth fewnfudo
Rydych yn destun rheolaeth fewnfudo:
- os yw'r Swyddfa Gartref yn dweud y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig (a elwir yn 'caniatâd i ddod i mewn neu aros') ond dim ond os na fyddwch yn hawlio rhai budd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai penodol a delir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig (a elwir yn 'hawl i arian cyhoeddus'), neu
- os oes angen caniatâd arnoch i aros yn y Deyrnas Unedig (a elwir yn 'caniatâd i ddod i mewn neu aros') ond nid yw'r caniatâd hwnnw gennych

Os ydych chi'n atebol i reolaeth fewnfudo, neu os nad ydych chi'n siŵr a ydych chi ai peidio, efallai y byddwch yn dal i allu cael credydau treth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tax-credits-if-moving-country-or-travelling.

Os caniatawyd lloches i chi yn y Deyrnas Unedig yn ystod y mis diwethaf, rhaid i chi ateb 'Do' i'r cwestiwn hwn.

1.11 Os oes gennych anabledd
Efallai y cewch Gredyd Treth Gwaith ychwanegol - rydym yn galw'r swm ychwanegol hwn yn elfen anabledd. Er mwyn cael yr elfen anabledd, mae'n rhaid i chi (neu eich partner) fodloni pob un o'r 3 amod cymhwyso. Gweler tudalennau 19 i 21 am fanylion

Am ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwiliwch am WTC2

Tudalen 3 o'ch ffurflen gais - Plant

Dywedwch wrthym am eich plant. Os oes gennych chi fwy na 2 o blant, llenwch ffurflen TC600A Tudalennau Ychwanegol.

O 6 Ebrill 2017 ymlaen, bydd y newidiadau canlynol yn berthnasol:

- ni ddyfernir elfen plentyn unigol y Credyd Treth Plant, mwyach, ar gyfer trydydd plentyn na phlant dilynol na phobl ifanc cymwys ar aelwyd, a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, ond mae rhai eithriadau. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/hmrc/ctc-exceptions
- bydd elfen teulu y Credyd Treth Plant yn daladwy dim ond os ydych chi'n gyfrifol am blentyn neu unigolyn ifanc sy'n gymwys a anwyd cyn 6 Ebrill 2017

Nid yw'r terfyn o ddau blentyn yn gymwys i elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith nac elfen anabledd y Credyd Treth Plant. Gallwch wneud cais am y ddwy elfen hon ar gyfer yr holl blant sy'n bodloni'r amodau. Am ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwiliwch am WTC5 (elfen gofal plant) neu TC956 (elfen anabledd plant).

Er mwyn sicrhau nad ydych chi'n colli'r cyfle i gael yr hyn y mae gennych hawl i'w gael, dylech barhau i roi gwybod am enedigaeth plentyn ac unrhyw newid yn ymwneud â'ch plant neu bobl ifanc, hyd yn oed os na fyddwch chi'n cael yr elfennau plentyn neu deulu ar eu cyfer.

2.4 Help tuag at gostau gofal plant cofrestredig a chymeradwy tra byddwch yn gweithio

Gallwch gael help ar gyfer plentyn hyd at y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei:

- ben-blwydd yn 15 oed
- ben-blwydd yn 16 oed os
  - ardystiwyd gan offthalmolegydd ymgynghorol bod gan y plentyn nam difrifol ar ei olwg neu ei fod yn ddall os peidiodd offthalmolegydd ymgynghorol ag ardystio ei fod yn ddall neu fod nam difrifol ar ei olwg, yn ystod y 28 wythnos diwethaf
  - rydych yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol ar gyfer y plentyn hwnnw

Am ragor o wybodaeth, darllenwch y nodiadau ar dudalen 4 neu ewch i GOV.UK a chwiliwch am WTC5.

2.5 Os daethoch chi, neu eich partner, yn gyfrifol am blentyn ar ddyddiad nad yw'n ddyddiad geni y plentyn

Os nad yw'r plentyn wedi byw gyda chi ers ei eni, gallwch ond gael Credyd Treth Plant o'r dyddiad:

- y dechreuodd fyw gyda chi
- y daethoch chi fel unigolyn (neu gwpl) yn bennaf gyfrifol am y plentyn hwnnw

Darllenwch y nodiadau ar dudalen 4.

2.6 Os yw'r plentyn hwn mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu ar gwrs hyfforddiant cymeradwy

Gallwch hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn hyd at 31 Awst ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 mlwydd oed. Gallwch hefyd hawlio ar gyfer unigolyn ifanc sydd rhwng 16 ac o dan 20 oed. Mae'n rhaid iddo fod mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu ar gwrs hyfforddiant cymeradwy.

Darllenwch y nodiadau ar dudalen 4.


RHAN 2 PLANT

Rhowch fanylion plant o dan 20 oed yr ydych chi (neu'ch partner, os oes gennych un) yn gyfrifol amdanynt. Gweler y nodiadau ar dudalennau 3 a 4, am yr hyn a olygwn wrth y gair 'cyfrifol' a pha blant y dylech eu cynnwys. Os ydych yn gyfrifol am fwy na 2 blentyn, llenwch ffurflen TC600A Tudalennau Ychwanegol ar ychwelyd gyda'r ffurflen gais hon. Os nad ydych yn gyfrifol am unrhyw blant o dan 20 oed, ewch ymlaen i RHAN 4.

PLENTYN 1

2.1 Enw olaf fel y'i dangosir ar ei dystysgrif geni

2.2 Enw(au) cyntaf fel y'i/y'u dangosir ar ei dystysgrif geni

2.3 Dyddiad geni D D M M B B B B

2.4 Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol i'r plentyn hwn

Rydych yn talu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra eich bod yn gweithio. Gweler y nodiadau ar dudalennau 3 a 4

Telir y Lwfans Byw i'r Anabl neu'r Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y nodiadau ar dudalen 4

Telir Cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu Elfen byw ddyddiol uwch y Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y nodiadau ar dudalen 4

Ardystiwyd gan offthalmolegydd ymgynghorol bod gan y plentyn, neu y bu ganddo, nam difrifol ar ei olwg, neu ei fod yn ddall, neu y bu'n ddall. Gweler y nodiadau ar dudalen 4

2.5 Os daethoch chi, neu'ch partner, yn gyfrifol am y plentyn hwn ar ddyddiad heblaw ei ddyddiad geni, rhowch y dyddiad y daethoch yn gyfrifol amdano. Gweler y nodiadau a dudalen 4 D D M M B B B B

PLANT RHWNG 16 AC 20 OED

2.6 Os yw'r plentyn hwn mewn addysg amser llawn, nadyw'n addysg uwch, neu'n dilyn cwrs hyfforddiant cymeradwy, rhowch 'X' yn y blwch. Gweler y nodiadau ar dudalen 4, os yw'r plentyn hwn dros 16 oed

2.7 Os yw'r plentyn hwn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cynnal awdurdod lleol, neu sefydliad tebyg, rhowch y dyddiad y gadawodd y plentyn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy. Gweler y nodiadau ar dudalen 3 D D M M B B B B

PLENTYN 2

2.1 Enw olaf fel y'i dangosir ar ei dystysgrif geni

2.2 Enw(au) cyntaf fel y'i/y'u dangosir ar ei dystysgrif geni

2.3 Dyddiad geni D D M M B B B B

2.4 Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol i'r plentyn hwn

Rydych yn talu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra eich bod yn gweithio. Gweler y nodiadau ar dudalennau 3 a 4

Telir y Lwfans Byw i'r Anabl neu'r Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y nodiadau ar dudalen 4

Telir Cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu Elfen byw ddyddiol uwch y Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y nodiadau ar dudalen 4

Ardystiwyd gan offthalmolegydd ymgynghorol bod gan y plentyn, neu y bu ganddo, nam difrifol ar ei olwg, neu ei fod yn ddall, neu y bu'n ddall. Gweler y nodiadau ar dudalen 4

2.5 Os daethoch chi, neu'ch partner, yn gyfrifol am y plentyn hwn ar ddyddiad heblaw ei ddyddiad geni, rhowch y dyddiad y daethoch yn gyfrifol amdano. Gweler y nodiadau ar dudalen 4 D D M M B B B B

PLANT RHWNG 16 AC 20 OED

2.6 Os yw'r plentyn hwn mewn addysg amser llawn, nadyw'n addysg uwch, neu'n dilyn cwrs hyfforddiant cymeradwy, rhowch 'X' yn y blwch. Gweler y nodiadau ar dudalen 4, os yw'r plentyn hwn dros 16 oed

2.7 Os yw'r plentyn hwn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cynnal awdurdod lleol, neu sefydliad tebyg, rhowch y dyddiad y gadawodd y plentyn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy. Gweler y nodiadau ar dudalen 3 D D M M B B B B

Withdrawn

2.4 Os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol ar gyfer eich plentyn, darllenwch y nodiadau ar dudalen 4.

2.5 Os daeth y plentyn o dramor ac mae'n aros gyda chi at ddibenion addysgol, ffoniwch i roi gwybod i ni.

Rydych chi'n gyfrifol am blentyn os ydynt fel arfer yn byw gyda chi. Os ydych chi'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn gyda rhywun nad yw'n bartner i chi, penderfynwch pa un ohonoch sydd â'r prif gyfrifoldeb. Yna dylai'r unigolyn hwnnw hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer y plentyn.

Nid ydych chi'n gyfrifol am blentyn os ydyw'n:

- cael credydau treth, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm yn ei rinwedd ei hun
- derbyn gofal gan awdurdod lleol sy'n talu tuag at gost ei lety neu gynnal a chadw
- wedi cael ei ddedfrydu i fwy na 4 mis yn y ddalfa neu mewn canolfan gadw
- wedi gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy ac wedi dechrau gweithio am 24 awr neu ragor yr wythnos

2.7 Os yw'r plentyn hwn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth 'cynnal' awdurdod lleol, neu sefydliad tebyg

Os yw'r plentyn:

- o dan 18 oed
- wedi gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu hyfforddiant cymeradwy yn y 3 mis diwethaf
- wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cynnal awdurdod lleol, neu sefydliad tebyg o fewn yr Undeb Ewropeaidd

nodwch y dyddiad y gwnaeth adael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu hyfforddiant cymeradwy.

2.4 Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol i'r plentyn hwn

Help tuag at gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra byddwch yn gweithio

Gallwch gael help tuag at gostau gofal plant hyd yn oed os nad ydych yn cael yr elfen plentyn o Gredyd Treth Plant ar gyfer eich plentyn:

- os ydych chi a'ch partner yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy neu os oes un ohonoch yn gweithio ac mae'r llall yn analluog, yn glaf yn yr ysbyty, yn y carchar naill ai ar remand neu'n cwblhau dedfryd o garchar neu â hawl i Lwfans Gofalwr
- os ydych yn defnyddio gwasanaeth gofal plant ar hyn o bryd neu wedi gwneud trefniadau gyda darparwr a fydd yn dechrau cyn pen y 7 diwrnod nesaf

Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy

Gallwch gael help tuag at eich costau gofal plant os yw'r darparwr gofal plant yn gofrestredig neu'n gymeradwy. Mae cyrff cofrestru a chymeradwyo yn cynnwys:

- y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) neu asiantaeth gwarchod plant sydd wedi'i chofrestru ag Ofsted yn Lloegr
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal yr Alban
- Cofrestr tîm blynyddoedd cynnar lleol yng Ngogledd Iwerddon

Efallai y gallwch gael help gyda'ch costau hyd yn oed os ydych yn defnyddio math gwahanol o ofal plant, megis clwb ar ôl ysgol.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich darparwr gofal plant wedi'i gofrestru neu'n gymeradwy, neu i weld a yw eich darparwr gofal plant yn gymwys, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5. Fel arall, ffoniwch ein llinell gymorth.

Elfennau anabledd plant

Os oes gan eich plentyn anabledd, efallai y cewch Gredyd Treth Plentyn ychwanegol – rydym yn galw'r swm ychwanegol hwn yn elfen anabledd plant. Efallai y byddwn yn talu'r swm:

- os telir Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar gyfer eich plentyn
- os cafwyd ardystiad gan offthalmolegydd ymgynghorol bod eich plentyn yn ddall neu fod nam difrifol ar ei olwg, neu os peidiodd offthalmolegydd ymgynghorol ag ardystio ei fod yn ddall neu fod nam difrifol ar ei olwg, yn ystod y 28 wythnos diwethaf

hyd yn oed os nad ydych chi'n cael yr elfen plentyn o'r Credyd Treth Plant ar gyfer y plentyn hwnnw.

Os telir elfen gofal uchaf Lwfans Byw i'r Anabl, elfen byw ddyddiol uwch y Taliad Annibyniaeth Personol neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog ar gyfer eich plentyn, efallai y byddwn yn talu elfen anabledd difrifol credydau treth.

Os ydych wedi gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol ar gyfer plentyn, ond rydych yn aros i glywed a fyddwch yn ei gael, gadewch y blwch hwn yn wag. Unwaith y byddwch yn gwybod bod y budd-dal yn mynd i gael ei dalu i chi, rhowch wybod i ni ar ba ddyddiad y bydd yn dechrau.

2.5 Y dyddiad y daethoch yn gyfrifol am y plentyn

Nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda chi. Efallai y bydd yn rhaid i chi nodi dyddiad sy'n hwyrach na dyddiad geni'r plentyn:

- os ydych yn gwpl ond dim ond un ohonoch oedd yn gyfrifol am y plentyn o'r blaen – nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda'r ddau ohonoch
- os ydych yn maethu neu'n mabwysiadu plentyn – nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda chi – os yw'r awdurdod lleol (yr Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon) yn gwneud taliadau i chi ar gyfer y plentyn, ffoniwch ein llinell gymorth
- os ydych yn hawlio credydau treth fel unigolyn sengl, ar ôl bod yn rhan o gwpl
- os oedd y plentyn yn byw gyda rhywun arall ond mae wedi dod i fyw gyda chi bellach

2.6 Pobl ifanc rhwng 16 ac 20 oed

Addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch

Ar yr amod ei fod wedi dechrau, cael ei dderbyn neu'i gofrestru ar ei gwrs cyn ei ben-blwydd yn 19 oed, mae addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch yn golygu bod yr unigolyn ifanc:

- yn yr ysgol neu'r coleg (nid y brifysgol)
- yn astudio pynciau hyd at ac yn cynnwys Lefel A, lefel 3 NVQ, Cymwysterau Uwch yr Alban neu Uwch Dystysgrif Ychwanegol (advanced Highers) (nid HNC na gradd)
- mewn gwersi am fwy na 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor
- ar raglen astudio (Lloegr yn unig)

Ni ddylai'r cwrs addysg gael ei ddarparu gan gyflogwr nac unrhyw swydd a ddelir ganddynt.

Hyfforddiant cymeradwy

Mae hyfforddiant yn gymeradwy os yw'n cael ei ddarparu o dan un o'r rhaglenni canlynol.

- Yn Lloegr – Gweler adran 2.6 Addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch.
- Yn yr Alban – *The Employability Fund*
- Yng Nghymru – Prentisiaethau Sylfaenol neu Hyfforddiaethau
- Yng Ngogledd Iwerddon – *PEACE IV Children and Young People 2.1 or Training for Success*.

Ni ddylai'r hyfforddiant cymeradwy gael ei ddarparu o dan gytundeb cyflogaeth.

Ystyrir bod unigolyn ifanc yn dal i fod mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy os:

- yw'n paratoi ar gyfer arholiadau
- yn absennol oherwydd salwch ond yn dod yn ôl pan fydd yn well
- newydd orffen cwrs ac wedi cofrestru i ddechrau cwrs arall y tymor nesaf

Os nad ydych yn siŵr a yw eich plentyn mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu'n cael hyfforddiant cymeradwy, ffoniwch y llinell gymorth.

Withdrawn

Tudalen 4 o'ch ffurflen gais - Costau gofal plant

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi rhif cofrestru neu rif cymeradwyo eich darparwr gofal plant i ni. Fel arall, gallai hynny beri oedi gyda'ch cais.

I weld a ydych chi'n gymwys a faint y gallech ei gael, darllenwch y nodiadau ar dudalen 6 neu ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5

3.1 Enw'r darparwr gofal plant
Os mai perthynas sy'n darparu eich gofal plant, efallai na fyddwch yn gymwys. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6.

3.2 3.2 Ei gyfeiriad/chyfeiriad

3.2 **Ei gyfeiriad**
Cod post
A B 1 2 C B
Rhif y tŷ neu'r adeilad
1 0 0
Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu'r adeilad
STRYD TREF


RHAN 2 PLANT parhad

CHI

2.8 **Os ydych yn cael budd-dal Plant, rhowch y cyfeirnod yn y blwch isod.** Bydd hwn ar unrhyw lythyrau ynglŷn â Budd-dal Plant yr ydych wedi'u cael. Os na wyddoch y cyfeirnod, gadewch y blwch yn wag
C H B

EICH PARTNER

2.8 **Os ydych yn cael budd-dal Plant, rhowch y cyfeirnod yn y blwch isod.** Bydd hwn ar unrhyw lythyrau ynglŷn â Budd-dal Plant yr ydych wedi'u cael. Os na wyddoch y cyfeirnod, gadewch y blwch yn wag
C H B

RHAN 3 COSTAU GOFAL PLANT – CYMORTH I RIENI SY'N GWEITHIO

A ydych yn talu costau gofal plant? Os felly, efallai y cewch gymorth ychwanegol i'w talu drwy credydau treth. Cyn i chi gwblhau RHAN 3, darllenwch y nodiadau ar dudalennau 5 a 6 i weld a yw'ch costau gofal plant yn gymwys.

Gallwch hawlio cymorth gyda chostau gofal plant os yw'ch plentyn yn 15 oed neu'n iau ac rydych yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy, gweler y nodiadau ar dudalen 3, blwch 2.4. Gall cyplau hawlio cymorth gyda chostau gofal plant ar y cyd, os yw'r ddau ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy, neu os yw un partner yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy ac mae'r partner arall yn anallu/ag, yn glaf yn yr ysbyty, yn y carchar naill ai ar remand neu'n cwblhau dedfryd o garchar neu'n a hawlio Lwfans Gofalwr.

Atebwch gwestiynau 3.1 i 3.7. Os ydych yn defnyddio mwy nag un darparwr gofal plant, llenwch y ffurflen TC600A *Tudalennau ychwanegol* a'i dychwelyd gyda'r ffurflen gais hon.

DARPARWR GOFAL PLANT

3.1 **Enw'r darparwr gofal plant.** Gweler y nodiadau ar dudalen 5

3.2 **Ei gyfeiriad**
Cod post
Rhif y tŷ neu'r adeilad
Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu'r adeilad

3.3 **Ei rif ffôn** – yn llawn

3.4 **Rhowch enw'r awdurdod lleol neu gorff arall (er enghraifft, arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) sydd wedi cofrestru neu wedi cymeradwyo'ch darparwr gofal plant.** Gweler y nodiadau ar dudalen 5

3.5 **Rhif cofrestru neu gymeradwyo'r darparwr rhif.** Gweler y nodiadau ar dudalen 5

3.6 **Sawl un o'r plant a enwyd yn y cais hwn sy'n cael gofal gan y darparwr gofal plant hwn?**
Plentyn

3.7 **Cyfrifwch y swm wythnosol yr ydych yn ei dalu i'r darparwr gofal plant hwn ar gyfartaledd.** Gweler y nodiadau ar dudalen 6
£ . 0 0

Withdrawn

Cofiwch, gallwch hawlio am ofal plant o hyd, hyd yn oed os nad ydych chi'n cael yr elfen plentyn o'r Credyd Treth Plant ar gyfer y plentyn hwnnw

3.5 Rhif cofrestru neu gymeradwyo'r darparwr gofal plant
Gofynnwch am gael gweld cofrestriad neu rif cymeradwyo eich darparwr gofal plant er mwyn sicrhau bod y cofrestriad neu gymeradwyaeth yn gyfoes.

3.7 Rhowch y swm wythnosol yr ydych yn ei dalu i'r darparwr gofal plant hwn ar gyfartaledd
Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6.

3.4 Corff cofrestru neu gymeradwyo'r darparwr gofal plant
Gofynnwch i'ch darparwr gofal plant pa awdurdod sydd wedi'i gymeradwyo neu ei gofrestru. Mae cyrff cofrestru a chymeradwyo yn cynnwys:

- y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) neu asiantaeth gwarchod plant sydd wedi'i chofrestru ag Ofsted yn Lloegr
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal yr Alban
- Cofrestr tîm blynyddoedd cynnar lleol yng Ngogledd Iwerddon

3.1 Os yw eich plentyn yn derbyn gofal gan berthynas

Fel arfer, ni fyddwch yn cael cymorth gyda chostau gofal plant os yw eich plentyn yn cael gofal gan

- riant neu lysriant
- taid/tad-cu neu nain/mam-gu
- modryb neu ewythr
- brawd neu chwaer

Os yw eich plentyn yn cael gofal gan berthynas ac mae'r perthynas hwnnw wedi'i gofrestru neu ei gymeradwyo fel gwarchodwr plant; ewch i GOV.UK a chwiliwch am WTC5 am ragor o wybodaeth.

3.7 Rhowch y swm wythnosol yr ydych yn ei dalu i'r darparwr gofal plant hwn ar gyfartaledd

Peidiwch â chynnwys unrhyw swm:

- a delir gan eich cyflogwr, mewn arian neu dalebau, tuag at eich costau gofal plant
- a gewch ar ffurf talebau gofal plant drwy aberth cyflog
- a delir gan awdurdod lleol neu awdurdod addysg lleol tuag at gostau gofal plant ar gyfer plant 3 neu 4 oed
- a delir gan un o gynlluniau'r llywodraeth, er enghraifft, grant gofal plant myfyrwyr i'ch helpu i ddechrau gweithio

Os ydych yn talu costau gofal plant yn wythnosol ac yn talu'r un swm bob wythnos, nodwch y swm hwnnw.

Os ydych yn talu costau gofal plant yn wythnosol ond yn talu symiau gwahanol, dylech roi'r holl symiau wythnosol a dalwyd gennych yn y 52 wythnos diwethaf at ei gilydd a rhannu'r cyfanswm â 52.

Talgrynnwch eich cyfartaledd i fyny i'r bunt agosaf bob tro.

Enghraifft – rydych yn talu am ofal plant yn wythnosol ac yn talu symiau gwahanol bob wythnos

Fel arfer, mae Aled yn talu £60 yr wythnos am ofal plant cofrestredig yn ystod y tymor. Yn ystod gwyliau'r ysgol mae'n talu £100 yr wythnos am 10 wythnos.

Cyfanswm ei gostau am 52 wythnos yw (£100 x 10 wythnos) + (£60 x 39 wythnos) = £3,340.

Felly, ei gostau wythnosol cyfartalog yw £3,340 wedi'i rannu â 52 = £64.23 (wedi'i dalgrynnu i fyny i £65.)

Dylech gynnwys costau ar gyfer wythnosau y talwch amdanynt yn unig.

Os oes angen help arnoch i weithio allan eich costau gofal plant wythnosol ar gyfartaledd, defnyddiwch y gyfrifiannell ar-lein – ewch i www.gov.uk/childcare-costs-for-tax-credits

Os oes rhaid i chi ddefnyddio gofal plant am gyfnod byr yn unig

Os ydych yn defnyddio gofal plant am gyfnod byr, penodedig yn unig (er enghraifft, yn ystod gwyliau'r ysgol), efallai y byddwch yn gallu hawlio a chael cymorth gyda'ch costau gofal plant am y cyfnod hwnnw. Pan ddywedwn 'penodedig', rydym yn golygu eich bod yn gwybod pryd y bydd y cyfnod o ofal plant yn dechrau ac yn gorffen. I hawlio cymorth gyda'ch costau gofal plant am gyfnod byr, penodedig, ffoniwch y llinell gymorth cyn gynted ag y mae'r gofal plant yn dechrau, neu ddim mwy na 7 diwrnod ymlaen llaw.

Bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni am y canlynol:

- dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y gofal plant
- gwir gost y gofal plant
- manylion y darparwr gofal plant

Os ydych chi neu eich partner yn analluog, yn glaf yn yr ysbyty, yn y carchar naill ai ar remand neu'n cwblhau dedfryd o garchar neu â hawl i Lwfans Gofalwr

Pan ddywedwn 'analluog', rydym yn golygu eich bod yn cael un o'r budd-daliadau canlynol ar hyn o bryd:

- Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol
- Lwfans Gweini
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau am 28 wythnos neu fwy, neu Dâl Salwch Statudol wedi'i ddilyn gan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau am 28 wythnos neu ragor
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfarnwyd ar sail gallu cyfyngedig i weithio, wedi i 12 mis o hawl i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau ddod i ben
- Budd-dal Anabledd Diwydiannol gyda Lwfans Gweini Cyson
- Lwfans Anabledd Rhyfel gyda Lwfans Gweini Cyson neu Atodiad Symudedd
- Budd-dal Tai gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr
- cerbyd o dan y Cynllun Cerbyd i'r Anabl

Withdrawn

Tudalen 5 o'ch ffurflen gais

Peidiwch ag anghofio rhoi nifer yr oriau yr ydych yn eu gweithio – gallai hynny beri oedi gyda'ch cais.

4.1 A ydych yn ymgymryd â gwaith cyflogedig ar hyn o bryd?

Atebwch 'Ydw' yma os ydych chi neu eich partner:

- yn gwneud gwaith y cewch eich talu amdano, gan gynnwys gwaith hunangyflogedig
- yn dechrau ymgymryd â gwaith cyflogedig yn y 7 diwrnod nesaf
- ar gontract dim oriau

Atebwch 'Ydw' hefyd os ydych chi neu eich partner yn absennol o'r gwaith, yn cynnwys:

- absenoldeb salwch o 28 wythnos neu lai
- absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu o 39 wythnos neu lai
- absenoldeb tadolaeth o bythefnos neu lai
- absenoldeb rhieni ar y cyd, ar yr amod eich bod chi a'ch partner wedi gweithio'r oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn cymryd absenoldeb rhieni ar y cyd



RHAN 4 MANYLION GWAITH

Mae RHAN 4 yn ymwneud â gwaith y cewch eich talu amdano, gan gynnwys gwaith fel person hunangyflogedig.
Mae nifer isaf yr oriau y mae'n rhaid i chi eu gweithio er mwyn gallu cael Credyd Treth Gwaith yn dibynnu ar eich amgylchiadau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y nodiadau ar dudalennau 7 i 10.

CHI

4.1 **A ydych yn ymgymryd â gwaith cyflogedig ar hyn o bryd?** Gweler y nodiadau ar dudalen 7. Os ydych yn dechrau gwaith cyflogedig cyn pen y 7 diwrnod nesaf rhowch 'X' yn y blwch 'Ydw'

☐ Ydw ☐ Nac ydw – ewch yn syth i RHAN 5

4.2 **A ydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig fel arfer?** Gweler y nodiadau ar dudalen 7

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad yr ydych yn gweithio ynddi fel arfer

4.3 **Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer?** Os yw'ch oriau yn amrywio o wythnos i wythnos, neu os ydych yn gwneud gwaith tymhorol, gweler y nodiadau ar dudalennau 7 i 9

☐☐ o Oriau

4.4 **Os ydych wedi rhoi'r gorau i hawlio neu os byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio unrhyw un o'r canlynol:**
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

oherwydd eich bod wedi dechrau gweithio, neu wedi newid eich oriau fel nad ydych bellach yn gymwys i gael y budd-daliadau hyn, yn y 31 diwrnod diwethaf, neu byddwch yn dechrau gweithio yn y 7 diwrnod nesaf, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau

D D M M B B B B

Ar gyfer y cwestiynau canlynol, os ydych yn:
- gyflogai dylech lenwi blychau 4.5 i 4.10
- hunangyflogedig, dylech lenwi blychau 4.5, 4.11 a 4.12
- gyflogai yn ogystal â bod yn hunangyflogedig, dylech lenwi blychau 4.5 i 4.12

EICH PARTNER

4.1 **A ydych yn ymgymryd â gwaith cyflogedig ar hyn o bryd?** Gweler y nodiadau ar dudalen 7. Os ydych yn dechrau gwaith cyflogedig cyn pen y 7 diwrnod nesaf rhowch 'X' yn y blwch 'Ydw'

☐ Ydw ☐ Nac ydw – ewch yn syth i RHAN 5

4.2 **A ydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig fel arfer?** Gweler y nodiadau ar dudalen 7

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad yr ydych yn gweithio ynddi fel arfer

4.3 **Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer?** Os yw'ch oriau yn amrywio o wythnos i wythnos, neu os ydych yn gwneud gwaith tymhorol, gweler y nodiadau ar dudalennau 7 i 9

☐☐ o Oriau

4.4 **Os ydych wedi rhoi'r gorau i hawlio neu os byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio unrhyw un o'r canlynol:**
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

oherwydd eich bod wedi dechrau gweithio, neu wedi newid eich oriau fel nad ydych bellach yn gymwys i gael y budd-daliadau hyn, yn y 31 diwrnod diwethaf, neu byddwch yn dechrau gweithio yn y 7 diwrnod nesaf, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau

D D M M B B B B

Ar gyfer y cwestiynau canlynol, os ydych yn:
- gyflogai dylech lenwi blychau 4.5 i 4.10
- hunangyflogedig, dylech lenwi blychau 4.5, 4.11 a 4.12
- gyflogai yn ogystal â bod yn hunangyflogedig, dylech lenwi blychau 4.5 i 4.12

Withdrawn

4.2 A ydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig fel arfer?

Mae'r cwestiwn hwn ynglŷn â'r wlad yr ydych yn gweithio ynddi'r rhan fwyaf o'r amser. Does dim gwahaniaeth os ydych weithiau'n mynd i wledydd eraill ar gyfer gwaith.

Y Deyrnas Unedig yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

4.3 Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer?

Darllenwch y nodiadau ar dudalennau 8 a 9 cyn ateb y cwestiwn hwn. Nid yw o bwys os nad ydych yn y gwaith ar hyn o bryd – eich oriau arferol sydd eu hangen arnom.

Faint o oriau y mae angen i chi eu gweithio er mwyn gwneud cais?

Os nad ydych yn gyfrifol am blant, ac os ydych:
- yn 25 i 59 oed - mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos
- yn 16 oed neu'n hŷn, mae angen eich bod
  - yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
  - yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- yn 60 oed neu'n hŷn - mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos

Os ydych yn gyfrifol am blant, ac os ydych:
- yn 16 oed neu'n hŷn - mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- yn 60 oed neu'n hŷn - mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- yn rhan o gwpl - mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 24 awr yr wythnos rhyngoch gydag o leiaf un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos oni bai fod yr unigolyn arall:
  - yn analluog
  - yn glaf preswyl yn yr ysbyty
  - yn y carchar naill ai yn cael ei gadw/chadw yn y ddalfa neu'n bwrw dedfryd o gaethiwed
  - â hawl i Lwfans Gofalwr

gweler tudalen 6 y Nodiadau.

4.3 Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer

Os ydych yn gyflogedig (rydych yn gweithio i rywun arall)
Nodwch gyfanswm yr oriau yr ydych yn eu gweithio mewn wythnos arferol. Dylech gynnwys goramser a weithiwch yn y rhan fwyaf o wythnosau. Os oes gennych fwy nag un swydd, adiwch yr oriau at ei gilydd.

Os ydych yn hunangyflogedig (rydych yn gweithio i chi eich hun)
Nodwch nifer yr oriau a weithiwch fel arfer yn eich busnes mewn wythnos, naill ai ar waith a gaiff ei filio i gleient neu weithgaredd cysylltiedig. Rhaid i'ch hunangyflogaeth fod wedi ei drefnu, yn rheolaidd ac yn cael ei redeg ar sail fasnachol, gyda'r bwriad o wneud elw.

Os ydych yn gweithio oriau gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn neu ar gontract dim oriau
Nodwch nifer yr oriau yr wythnos a weithiwch ar hyn o bryd (ac yn disgwyl gweithio yn ystod y 4 wythnos nesaf). Rhowch wybod i ni os bydd eich oriau yn newid neu os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio yn gyfan gwbl.

Os ydych yn gweithio yn ystod tymhorau'r ysgol yn unig
Nodwch nifer yr oriau yr wythnos rydych fel arfer yn eu gweithio yn ystod tymhorau'r ysgol. Defnyddiwch enghraifft 6 ar dudalen 9 i'ch helpu.

Os ydych yn ofalwr maeth
Gallai'r oriau a weithiwch fel gofalwr maeth gyfrif tuag at gredydau treth os cewch eich talu gan eich awdurdod lleol. Os mai eich swydd fel gofalwr maeth yw eich prif ffynhonnell o incwm neu eich prif swydd, efallai y gallwch gael Credyd Treth Gwaith. Ffoniwch ni i gael rhagor o wybodaeth neu i ganfod os gallwch wneud cais.

Os ydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch
Nodwch nifer yr oriau yr oeddech yn eu gweithio fel arfer cyn i chi fynd yn sâl. Cewch hawlio Credyd Treth Gwaith tra byddwch yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch:
- os gwnaethoch gais unigol ac mae eich oriau arferol yn 16 awr neu fwy yr wythnos ac
  - rydych yn gyfrifol am blentyn
  - rydych yn 60 oed neu'n hŷn
- os rydych wedi gwneud cais fel cwpl ac
  - rydych chi neu eich partner yn gyfrifol am blentyn
  - mae eich oriau gwaith ar y cyd yn 24 awr neu fwy yr wythnos gydag o leiaf un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos
- os yw'ch oriau gwaith fel arfer yn 30 awr neu fwy yr wythnos ac rydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:
  - Tâl Salwch Statudol
  - Budd-dal Analluogrwydd byrdymor ar y gyfradd is
  - Cymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd i weithio
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
  - credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluogrwydd i weithio neu allu cyfyngedig i weithio

Os ydych ar absenoldeb tadolaeth, mamolaeth cyffredin, mamolaeth ychwanegol neu fabwysiadu â thâl (neu y byddech wedi bod ar absenoldeb rhieni ar y cyd â thâl petai'r amodau cymhwyso wedi'u bodloni)
Nodwch nifer yr oriau yr oeddech yn eu gweithio fel arfer cyn i'ch absenoldeb ddechrau. Os ydych yn hunangyflogedig, dylech nodi nifer yr oriau yr oeddech yn eu gweithio fel arfer cyn i'r cyfnod o absenoldeb ddechrau petaech wedi bod yn gymwys i gael absenoldeb mamolaeth cyffredin neu ychwanegol, absenoldeb rhieni ar y cyd neu absenoldeb mabwysiadu â thâl, pe baech yn gyflogai.

Withdrawn

Os cewch eich atal rhag gweithio
Nodwch nifer yr oriau yr oeddech yn eu gweithio fel arfer cyn i chi gael eich atal rhag gweithio.

Os ydych ar streic
Os wedi bod ar streic am 11 diwrnod neu lai, nodwch nifer yr oriau yr oeddech fel arfer yn eu gweithio cyn i chi fynd ar streic.

Gallwch gael Credyd Treth Gwaith dim ond ar gyfer y 10 diwrnod cyntaf o'ch streic. Os bydd eich streic yn para am fwy na 10 diwrnod, rhowch wybod i ni ar unwaith. Ni allwch wneud cais am Gredyd Treth Gwaith nes i chi ddychwelyd i'r gwaith.

Os ydych wedi gadael eich swydd ond yn dal i gael eich talu
Os ydych wedi gadael eich swydd ond yn dal i gael eich talu am na roddwyd digon o rybudd i chi, ni chewch eich ystyried fel rhywun sy'n gweithio. Felly, eich oriau arferol yw sero.

Ffoniwch ni os ydych wedi gorffen gweithio yn ddiweddar ond yn bwriadu dechrau swydd newydd yn fuan.

Enghraifft 1 – cymryd amser o'r gwaith

Fel arfer, mae Llion yn gweithio 28 awr yr wythnos. Yr wythnos hon, cymerodd 2 ddiwrnod o wyliau yn ddi-dâl a gweithio 17 awr yn unig. Fodd bynnag, mae'n disgwyl gweithio 28 awr yr wythnos nesaf, a phob wythnos yn y dyfodol agos. Felly, ei oriau arferol yw 28 awr yr wythnos.

Enghraifft 2 – goramser rheolaidd

Mae Twm dan gontract i weithio 25 awr yr wythnos. Yr wythnos hon, mae hefyd wedi gweithio 10 awr o oramser. Yr wythnos ddiwethaf, ni wnaeth Twm unrhyw waith goramser o gwbl, ond gan amlaf mae'n gweithio 5 awr ychwanegol yr wythnos.

Felly, ei oriau arferol yw 30 awr yr wythnos, sy'n cynnwys y 25 awr o waith y mae dan gontract i'w wneud bob wythnos, a'r 5 awr o oramser y mae fel arfer yn eu gweithio bob wythnos. Nid yw'r ffaith nad yw wedi gweithio 30 awr yn union yn ystod yr wythnosau diwethaf yn gwneud gwahaniaeth.

Enghraifft 3 – oriau gwahanol bob yn ail wythnos

Mae Siwan yn gweithio oriau gwahanol bob wythnos. Yn ystod y 10 wythnos ddiwethaf, mae ei horiau wedi bod fel a ganlyn: 16, 17, 16, 18, 14, 0, 16, 17, 16, 17.

Yn ystod wythnos 5, gadawodd yn gynnar ar gyfer apwyntiad, ac yn ystod wythnos 6 roedd yn sâl. Ei horiau arferol yw 16 awr yr wythnos, gan y byddai'n diystyru'r wythnos yr oedd i ffwrdd o'r gwaith yn sâl.

Enghraifft 4 – mynd yn ôl i'r gwaith ar ôl bod yn ddi-waith

Nid yw Lisa wedi gweithio o gwbl am y 10 mlynedd diwethaf. Dechreuodd swydd newydd yr wythnos ddiwethaf, gan weithio 20 awr yr wythnos. Felly, ei horiau arferol yw 20 awr yr wythnos.

Nid yw'r ffaith mai dim ond yr wythnos ddiwethaf y dechreuodd ei swydd yn newid y ffaith ei bod bellach yn gweithio 20 awr yr wythnos fel arfer.

Enghraifft 5 – gweithio am ran o'r flwyddyn yn unig

Fel arfer, mae Bethan yn gweithio 35 awr yr wythnos am 3 mis bob haf.

Gall hawlio Credyd Treth Gwaith yn ystod y cyfnod hwn o 3 mis, ond pan fydd yn gorffen y gwaith tymhorol hwn, bydd ei Chredyd Treth Gwaith yn dod i ben, oni chaiff swydd arall cyn pen wythnos o orffen ei swydd.

Os caiff swydd arall ac mae ei horiau arferol yn llai na 30 awr yr wythnos, mae'n rhaid iddi roi gwybod i ni am y newid cyn pen mis. Os na chaiff swydd arall, mae'n rhaid iddi roi gwybod i ni cyn pen mis ei bod wedi gorffen gweithio.

Ni all gael Credyd Treth Gwaith nes y daw'r cyfnod nesaf pan fydd ei horiau gwaith arferol yn ddigon uchel iddi fod yn gymwys unwaith eto.

Enghraifft 6 – gweithio yn ystod y tymor yn unig

Mae Nia yn gweithio 18 awr yr wythnos fel cynorthwyydd cinio mewn ysgol yn ystod y tymor. Felly, ei horiau gwaith arferol yw 18 awr yr wythnos. Nid yw'r ffaith nad yw'n gweithio o gwbl yn ystod gwyliau'r ysgol yn gwneud gwahaniaeth, oherwydd bod y gwyliau hyn yn rhan o'i chylch gwaith blynyddol rheolaidd ac nid ydynt yn cyfrif wrth gyfrifo oriau gwaith arferol.

Withdrawn

Tudalen 6 o'ch ffurflen gais - Manylion gwaith

Peidiwch ag anghofio rhoi manylion cyfeiriad eich cyflogwr – gallai hynny beri oedi gyda'ch cais.

4.5 Nifer y swyddi
Nodwch '1' os mai dim ond 1 swydd gyflogedig sydd gennych.

Os oes gennych fwy nag 1 swydd gyflogedig, nodwch y nifer. Er enghraifft, os oes gennych swydd yn ystod y dydd a swydd rhan amser gyda'r nos hefyd, byddech yn nodi '2'.

Dylech gynnwys swyddi hunangyflogedig.

4.7 Cyfeirnod TWE eich cyflogwr
Mae cyfeirnod TWE eich cyflogwr ar eich slipiau cyflog, eich tystysgrif P60 a roddir gan eich cyflogwr neu eich Hysbysiad Cod TWE a roddir gennym ni. Os na allwch ddod o hyd i'r rhif hwn, gofynnwch yn y gwaith. Os oes gennych swydd newydd, cofiwch nodi rhif eich cyflogwr newydd.
Enghraifft o gyfeirnod TWE cyflogwr

Cyfeirnod TWE y Cyflogwr
139 / H345

4.9 Cyfeiriad swyddfa gyflogau'r cyflogwr
Edrychwch ar eich P60 neu gofynnwch yn y gwaith am hwn. Mae'n bosibl na fydd cyfeiriad y swyddfa gyflogau'r un peth â chyfeiriad eich gweithle.


RHAN 4 MANYLION GWAITH parhad

CHI – CYFLOGEDIG

4.5 Sawl swydd ā thāl sydd gennych?

4.6 Enw'r cyflogwr
Os oes gennych fwy nag un cyflogwr, rhowch enw'r cyflogwr yr ydych yn gweithio'r nifer fwyaf o oriau iddo

4.7 Cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr
Gweler y nodiadau ar dudalen 10 i gael gwybodaeth am sut i ganfod hwn

4.8 Eich rhif cyflogres, os oes un gennych
Edrychwch ar eich slip cyflog diweddaraf i gael hwn

4.9 Cyfeiriad swyddfa gyflogau'r cyflogwr
Cod post

Rhif yr adeilad

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r adeilad

4.10 Rhif ffôn swyddfa gyflogau'r cyflogwr – yn llawn

CHI – HUNANGYFLOGEDIG

4.11 Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)
Mae hwn ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad

4.12 Os nad ydych wedi anfon eich Ffurflen Dreth gyntaf atom eto, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau hunangyflogaeth
D D M M B B B B

EICH PARTNER – CYFLOGEDIG

4.5 Sawl swydd ā thāl sydd gennych?

4.6 Enw'r cyflogwr
Os oes gennych fwy nag un cyflogwr, rhowch enw'r cyflogwr yr ydych yn gweithio'r nifer fwyaf o oriau iddo

4.7 Cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr
Gweler y nodiadau ar dudalen 10 i gael gwybodaeth am sut i ganfod hwn

4.8 Eich rhif cyflogres, os oes un gennych
Edrychwch ar eich slip cyflog diweddaraf i gael hwn

4.9 Cyfeiriad swyddfa gyflogau'r cyflogwr
Cod post

Rhif yr adeilad

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r adeilad

4.10 Rhif ffôn swyddfa gyflogau'r cyflogwr – yn llawn

EICH PARTNER – HUNANGYFLOGEDIG

4.11 Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)
Mae hwn ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad

4.12 Os nad ydych wedi anfon eich Ffurflen Dreth gyntaf atom eto, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau hunangyflogaeth
D D M M B B B B

Withdrawn

4.11 Eich cyfeirnod treth
Nodwch eich cyfeirnod 10 digid a ddangosir ar dudalen 1 eich Ffurflen Dreth.
Rhaid i chi gofrestru ar gyfer Hunanasesiad er mwyn cael hwn.

4.12 Os nad ydych wedi anfon eich Ffurflen Dreth gyntaf atom eto
Os ydych newydd ddechrau gweithio ar eich liwt eich hun, efallai na fydd gennych gyfeirnod treth eto. Os felly, nodwch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio i chi eich hun

Tudalen 7 o'ch ffurflen gais - Manylion incwm

Cyplau – rhowch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.

5.1 Budd-daliadau nawdd cymdeithasol

Peidiwch â rhoi 'X' yma os ydych:

- yn cael Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau
- wedi gwneud cais am un o'r budd-daliadau hyn ond nad ydych wedi clywed a gewch eich talu, neu
- yn cael taliad sy'n parhau ar gyfer un o'r taliadau hyn oherwydd
  - eich bod wedi dechrau gweithio yn y pythefnos diwethaf, neu
  - yn dechrau gweithio yn ystod y 7 diwrnod nesaf

Os ydych yn aros i glywed a fyddwch yn cael un o'r budd-daliadau hyn, rhowch wybod i ni ar unwaith pan fyddwch yn dechrau cael eich talu.

5.2 Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd

Os ydych chi wedi cael unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir isod, adiwch y cyfan at ei gilydd a nodwch y cyfanswm:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Budd-dal Analluogrwydd a dalwyd ar ôl y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd
- Cymhorthdal Incwm trethadwy (dim ond os oeddech yn gwpl, ac roedd yr un a gafodd Gymhorthdal Incwm ar streic y mae hyn yn berthnasol)

Nodwch Bensiynau'r Wladwriaeth ym mlwch 5.6.

Os nad ydych yn siŵr pa fudd-daliadau a gafwyd gennych, neu faint, cysylltwch â'ch swyddfa Adran Gwaith a Phensiynau neu Ganolfan Byd Gwaith lleol.


RHAN 5 MANYLION INCWM

Mae swm y credydau treth a gewch yn dibynnu ar eich incwm (y ddau incwm yn achos cyplau). Rhowch fanylion eich incwm ym mlychau 5.2 i 5.6.

Rhowch 'X' yn y blwch priodol yn 5.1 ac ewch yn syth i RHAN 6 os ydych chi (neu'ch partner) yn cael Cymhorthdal Incwm (ond nid ar ffurf taliad sy'n parhau (run-on payment) neu os yw'ch Cymhorthdal Incwm yn drethadwy), Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm neu Gredyd Pensiwn.

CHI

5.1 **Os ydych yn cael unrhyw un o'r canlynol, rhowch 'X' yn y blwch hwnnw.** Os ydych newydd wneud cais ac yn aros i glywed p'un a gewch eich talu, gweler y nodiadau ar dudalen 11. Peidiwch â llenwi'r canlynol os byddwch yn dechrau gweithio yn ystod y 7 diwrnod nesaf a byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio unrhyw un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

EICH PARTNER

5.1 **Os ydych yn cael unrhyw un o'r canlynol, rhowch 'X' yn y blwch hwnnw.** Os ydych newydd wneud cais ac yn aros i glywed p'un a gewch eich talu, gweler y nodiadau ar dudalen 11. Peidiwch â llenwi'r canlynol os byddwch yn dechrau gweithio yn ystod y 7 diwrnod nesaf a byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio unrhyw un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

Yng ngweddill RHAN 5, rhowch fanylion eich incwm am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.

Nid oes rhaid cynnwys ceiniogau yn y ffigurau a roddwch – talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i gyfrifo'ch incwm gweler y nodiadau ar dudalennau 12 i 16. Os gwnaethoch chi (neu'ch partner) golled fasnachol neu os gwnaethoch dalu cyfraniadau pensiwn gros neu daliadau Rhodd Cymorth, ewch i GOV.UK i chwilio am TC825 a fydd yn eich helpu i gyfrifo'ch incwm cyn i chi lenwi blychau 5.2 i 5.6.

EICH INCWM CHI

Peidiwch â chynnwys Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Credyd Pensiwn, Lwfans Byw i'r Anabl na Thaliad Annibyniaeth Personol. Gweler y nodiadau ar dudalen 11, sy'n nodi pa incwm a buddiannau y dylech eu cynnwys.

5.2 **Rhowch gyfanswm y budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd yn y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.** Gweler y nodiadau ar dudalen 11 i gael manylion y buddiannau i'w cynnwys

£ . 0 0

5.3 **Rhowch gyfanswm eich enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.** (Os oeddech yn hunangyflogedig rhowch eich incwm ym mlwch 5.5.) Rhowch gyfanswm eich enillion am y flwyddyn cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Chwiliwch am y ffigur o dan 'cyfanswm y cyflog' neu 'cyfanswm am y flwyddyn' ar eich Tystysgrif Diwedd Blwyddyn P60. Gweler y Daflen Waith ar dudalen 12 am ddidyniadau y gallwch eu gwneud, gan gynnwys taliadau Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Thâl Rhieni ar y Cyd Statudol. Os oedd gennych fwy nag un swydd yn ystod y flwyddyn - un ar ôl y llall neu ar yr un pryd - mae angen gwybodaeth arnom am gyfanswm eich cyflog o bob un ohonynt. Am ragor o gymorth, gweler y nodiadau ar dudalennau 11 a 12.

£ . 0 0

INCWM EICH PARTNER

Peidiwch â chynnwys Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Credyd Pensiwn, Lwfans Byw i'r Anabl na Thaliad Annibyniaeth Personol. Gweler y nodiadau ar dudalen 11, sy'n nodi pa incwm a buddiannau y dylech eu cynnwys.

5.2 **Rhowch gyfanswm y budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd yn y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.** Gweler y nodiadau ar dudalen 11 i gael manylion y buddiannau i'w cynnwys

£ . 0 0

5.3 **Rhowch gyfanswm eich enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.** (Os oeddech yn hunangyflogedig rhowch eich incwm ym mlwch 5.5.) Rhowch gyfanswm eich enillion am y flwyddyn cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Chwiliwch am y ffigur o dan 'cyfanswm y cyflog' neu 'cyfanswm am y flwyddyn' ar eich Tystysgrif Diwedd Blwyddyn P60. Gweler y Daflen Waith ar dudalen 12 am ddidyniadau y gallwch eu gwneud, gan gynnwys taliadau Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Thâl Rhieni ar y Cyd Statudol. Os oedd gennych fwy nag un swydd yn ystod y flwyddyn - un ar ôl y llall neu ar yr un pryd - mae angen gwybodaeth arnom am gyfanswm eich cyflog o bob un ohonynt. Am ragor o gymorth, gweler y nodiadau ar dudalennau 11 a 12.

£ . 0 0

Withdrawn

5.3 Enillion fel cyflogai

Os ydych yn gyflogai, peidiwch â gadael y blwch hwn yn wag. Gallwch weld faint yr ydych wedi'i ennill ar eich P45, P60 neu eich slip cyflog terfynol.

Enghreifftiau isod:

'Cyfanswm cyflog hyd yn hyn' ar P45



'Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn' ar P60



Peidiwch ag anfon P45 neu P60 atom ni.

Os nad ydych yn siŵr beth i'w roi, ffoniwch ni.

Os ydych chi (neu eich partner) yn hunangyflogedig, bydd eich elw yn mynd ym mlwch 5.5 ar dudalen 8 eich ffurflen gais.

5.3 Taflen Waith – Enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018

Ffoniwch ein llinell gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.

Yn gyntaf nodwch eich enillion	Chi	Eich partner
Os oeddech yn gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn 2017–2018, dylech nodi eich enillion mewn punnoedd Prydeinig. Cyfanswm eich cyflog o'ch holl waith cyflogedig, gan gynnwys cildyrnau ac arian rhodd, Tâl Salwch Statudol a Thâl Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu neu Dâl Ar y Cyd i Rieni Statudol. Nodwch y swm trethadwy (cyn i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gael eu didynnu). Mae'r manylion hyn ar gyfer y flwyddyn ar eich P60, P45 neu lythyr hysbysu gan eich cyflogwr. Os yw eich incwm yn cynnwys buddiannau drwy'r gyflogres, didynnwch y ffigur hwn o gyfanswm eich cyflog cyn nodi'r swm yn y blwch. Dangosir buddiannau ar eich P11D os ydych yn eu cael.	£	£
Tâl gan eich cyflogwr oherwydd bod eich swydd wedi newid neu wedi dod i ben. Ni chaiff £30,000 cyntaf y tâl diswyddo ei drethu, felly peidiwch â'i gynnwys yma. Nodwch unrhyw swm a gawsoch sy'n fwy na'r swm hwnnw.	£	£
Enillion trethadwy o opsiynau gwarantau a gawsoch oherwydd eich swydd (er enghraifft, cyfranddaliadau neu fondiau cwmni).	£	£
Tâl streic gan eich undeb llafur.	£	£
Tâl am waith a wnaethoch yn y carchar neu ar remand.	£	£
Cyfanswm eich enillion	£	£
Nawr, nodwch eich didyniadau		
Treuliau gwaith a dalwyd gennych ac nid ydynt wedi'u had-dalu i chi gan eich cyflogwr. Mae'r rhain yn dreuliau yr oedd yn rhaid i chi eu talu wrth wneud eich gwaith ac sy'n gysylltiedig â gwneud eich gwaith yn unig. Peidiwch â chynnwys eich treuliau teithio rhwng eich cartref a'ch gweithle arferol.	£	£
Taliadau y gellir eu didynnu at ddibenion treth a wnaed gennych ac nad ydynt wedi'u had-dalu i chi. Er enghraifft, ffioedd i gyrff proffesiynol, ffioedd asiantaethau, yswiriant indemniad a thanysgrifiadau/ffioedd undeb a ganiateir.	£	£
Treuliau cyfradd unffurf y cytunwyd arnynt gan eich cyflogwr a gennym ni er mwyn cynnal neu adnewyddu offer neu ddillad arbennig sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich gwaith.	£	£
Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd a thaliadau i bensiynau Cyfranddeiliaid. Nodwch y swm gros – ewch i GOV.UK a chwiliwch am TC825. Peidiwch â chynnwys unrhyw beth a daloch i mewn i gynllun 'pensiwn galwedigaethol'. Dyma ble y tynnwyd eich cyfraniadau pensiwn o'ch cyflog gan eich cyflogwr cyn didynnu treth).	£	£
Tâl Mamolaeth, Tadolaeth, Rhieni ar y Cyd neu Fabwysiadu Statudol. Os oedd eich taliadau yn fwy na £100 yr wythnos, nodwch £100 yn y blwch ar gyfer pob wythnos. Er enghraifft, os cawsoch daliadau am 30 o wythnosau, nodwch £3,000. Os oedd eich taliadau yn llai na £100 yr wythnos, nodwch y swm a gawsoch. Er enghraifft, os cawsoch £80 am 30 o wythnosau, nodwch £2,400. Peidiwch â chynnwys Lwfans Mamolaeth.	£	£
Cyfanswm eich Didyniadau	£	£
Tynnwch gyfanswm eich didyniadau o gyfanswm eich enillion. Rhowch y swm hwn ym mlwch 5.3. Peidiwch â chynnwys y ceiniogau.	£	£

Withdrawn

Defnyddiwch y daflen hon i'ch helpu i gyfrifo eich incwm. Peidiwch â'i hanfon atom ni – dylech ei chadw ar gyfer eich cofnodion.

Tudalen 8 eich ffurflen gais

A ydych yn amcangyfrif eich incwm? Peidiwch ag anghofio llenwi'r blychau incwm – gallai hynny beri oedi gyda'ch cais.

5.4 Buddiannau gan eich cyflogwr
Bydd eich cyflogwr yn rhoi'r manylion sydd eu hangen arnoch ar ffurflen P11D. Os yw eich cyflogwr wedi cynnwys buddiannau ar eich P60 neu eich P45, bydd yn rhaid i chi ddidynnu'r swm cyfwerth mewn arian parod o gyfanswm eich P60 a'ch P45 a chynnwys y ffigur hwn ym mlwch 5.4. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 14.

5.5 Incwm o hunangyflogaeth
Os ydych yn hunangyflogedig, rhaid i chi roi gwybod i ni am eich elw am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2018.
Defnyddiwch y nodiadau ar dudalen 15 i'ch helpu i gyfrifo eich elw neu i ganfod pa ffigurau sy'n rhaid i chi eu cymryd o'ch Ffurflen Dreth.



RHAN 5 MANYLION INCWM parhad

Cofiwch, mae angen manylion arnom am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 16 yn egluro sut i gyfrifo'ch incwm blynyddol ac yn rhoi gwybod sut i gysylltu â ni os bydd angen rhagor o help arnoch.

EICH INCWM CHI

5.4 **Rhowch gyfanswm car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy, a buddiannau** – am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.
Os cawsoch unrhyw un o'r rhain gan eich cyflogwr, mae'n rhaid i ni wybod cyfanswm eu 'gwerth cyfatebol mewn arian parod'.
Cewch y ffigurau hyn ar ffurflen P11D y dylai eich cyflogwr fod wedi'i rhoi i chi erbyn mis Gorffennaf 2018. Gweler y nodiadau ar dudalennau 13 a 14, a fydd yn eich helpu i gyfrifo'r cyfanswm a gawsoch.
£ . 00

5.5 **Incwm a gafwyd o hunangyflogaeth**
Os nad ydych wedi anfon Ffurflen Dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2018, neu os yw'ch busnes yn cael incwm rhent, gweler y nodiadau ar dudalennau 13 a 15. Mae'r rhain yn esbonio sut i gyfrifo'ch elw o hunangyflogaeth.
Os ydych wedi anfon Ffurflen Dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2018, rhowch gyfanswm eich elw net, llai swm gros unrhyw gyfraniadau a wnaed i gynllun pensiwn. Gweler y nodiadau ar dudalen 15. Os gwnaethoch golled, nodwch '0.00'
£ . 00

INCWM EICH PARTNER

5.4 **Rhowch gyfanswm car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy, a buddiannau** – am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018.
Os cawsoch unrhyw un o'r rhain gan eich cyflogwr, mae'n rhaid i ni wybod cyfanswm eu 'gwerth cyfatebol mewn arian parod'.
Cewch y ffigurau hyn ar ffurflen P11D y dylai eich cyflogwr fod wedi'i rhoi i chi erbyn mis Gorffennaf 2018. Gweler y nodiadau ar dudalennau 13 a 14, a fydd yn eich helpu i gyfrifo'r cyfanswm a gawsoch.
£ . 00

5.5 **Incwm a gafwyd o hunangyflogaeth**
Os nad ydych wedi anfon Ffurflen Dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2018, neu os yw'ch busnes yn cael incwm rhent, gweler y nodiadau ar dudalennau 13 a 15. Mae'r rhain yn esbonio sut i gyfrifo'ch elw o hunangyflogaeth.
Os ydych wedi anfon Ffurflen Dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2018, rhowch gyfanswm eich elw net, llai swm gros unrhyw gyfraniadau a wnaed i gynllun pensiwn. Gweler y nodiadau ar dudalen 15. Os gwnaethoch golled, nodwch '0.00'
£ . 00

INCWM ARALL

Os cawsoch unrhyw incwm arall o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018 nad ydych wedi'i gynnwys ym mlychau 5.2 i 5.5, rhowch y swm ym mlwch 5.6.
Peidiwch â llenwi'r blwch hwn os yw cyfanswm eich incwm arall yn llai na £300.
Mae incwm arall yn cynnwys:
- incwm gros o gynilion, buddiannoddiadau a difidendau dylech gynnwys llog o unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu (ond nid Cyfrifon Cynilo Unigol (ISA) na chyfrifon dreth eraill)
- Pensiwn y Wladwriaeth ac unrhyw pensiynau eraill
- incwm o eiddo neu dir yn y Deyrnas Unedig a cododd gennych (ond nid os ydyw'n gosod ystafell wedi'i dodrefnu yn eich cartref am £7,500 y flwyddyn neu lai)
- incwm gros o ymddiriedolaeth
- incwm o dramor, gweler y nodiadau ar dudalen 16
- incwm tybiannol

Rhaid i chi ddefnyddio'r Daflen Waith yn y nodiadau ar dudalen 16, i gyfrifo eich cyfanswm. Dylech gynnwys unrhyw incwm arall dros £300, yn ogystal â swm llawn unrhyw Grant Oedolyn Dibynnol ac incwm trethadwy amrywiol. Gweler y nodiadau ar dudalen 16.
Er enghraifft, os yw cyfanswm eich incwm arall yn £421, dylech gynnwys £121 yn unig (£421 llai £300). Yna adiwch swm llawn unrhyw Grant Oedolyn Dibynnol neu incwm trethadwy amrywiol. Felly, os oes gennych £50 o incwm amrywiol, rhowch £171 (£50 ar ben £121). Os byddwch yn gwneud cais fel cwpl, eich incwm arall ar y cyd sy'n cyfrif.

5.6 **Cyfanswm incwm arall**
£ . 00

INCWM AMCANGYFRIFEDIG

Pan fyddwch chi (neu'ch partner, os oes gennych un) yn llenwi'r ffurflen hon, efallai na fydd gennych yr holl wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei rhoi i ni am eich incwm. Os oes unrhyw symiau a ddangosir yn 5.2 i 5.6 yn cynnwys amcangyfrifon, mae'n rhaid i ni wybod.

5.7 **A wnaethoch chi, neu eich partner, ddefnyddio amcangyfrifon wrth gyfrifo'ch incwm?**
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig
☐ Do ☐ Naddo

Withdrawn

5.6 Incwm arall
Mae incwm o bensiwn yn cynnwys:
- Lwfans Mam Weddw
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Pensiwn y wladwriaeth a phensiynau eraill

Mae incwm o ymddiriedolaeth yn cynnwys arian o ystâd.

Mae incwm tramor yn cynnwys pensiwn o dramor.

Peidiwch â llenwi'r blwch hwn os yw eich incwm arall yn:
- llai na £300
- taliad cynhaliaeth
- grant, bwrsari neu fenthyciad myfyriwr

5.4 Taflen Waith – Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018

Ffoniwch ein llinell gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.

Copïwch yr wybodaeth o'ch ffurflen P11D a gewch gan eich cyflogwr. Os oedd gennych fwy nag un cyflogwr, adiwch y ffigurau hyn at ei gilydd.

	Chi	Eich partner
Nwyddau ac asedau y rhoddodd eich cyflogwr i chi (er enghraifft, rhoddion o geir, eiddo) - a ddangosir yn adran A eich ffurflen P11D.	£	£
Taliadau a wnaed gan eich cyflogwr ar eich rhan (er enghraifft, talu rhent neu filiau cyfleustodau) - a ddangosir yn adran B eich ffurflen P11D yn y blwch 15 cyntaf.	£	£
Talebau arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod, a thocynnau credyd (er enghraifft, cerdyn credyd cwmni a ddefnyddir i brynu eitemau ar gyfer defnydd personol) - a ddangosir yn adran C eich ffurflen P11D. Peidiwch â chynnwys swm cyfwerth mewn arian parod talebau gofal plant os cânt eu defnyddio i dalu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy.	£	£
Lwfans milltiroedd. Dylech gynnwys taliadau am ddefnyddio eich car eich hun - nodwch y swm trethadwy a ddangosir yn adran E eich ffurflen P11D. Dylech hefyd gynnwys costau rhedeg y mae eich cyflogwr wedi talu amdanynt - a ddangosir yn adran E eich ffurflen P11D, neu a gynhwysir yn adran N. Os na chaiff eich costau milltiroedd eu talu gan eich cyflogwr, neu os bydd yn talu ychydig o'r costau yn unig, ffoniwch ni.	£	£
Car cwmni - a ddangosir ym mlwch 9 adran F eich ffurflen P11D.	£	£
Buddiant tanwydd car - a ddangosir ym mlwch 10 adran F eich ffurflen P11D.	£	£
Taliadau treuliau a wnaed i chi neu ar eich rhan - a ddangosir yn adran J, M neu N eich ffurflen P11D. Mae'n bosibl y gallech ostwng y swm hwn drwy hawlio didyniad am dreuliau a ganiateir at ddibenion Treth Incwm penodol. Ffoniwch ein llinell gymorth.	£	£
Cyfanswm. Rhowch y swm hwn ym mlwch 5.4. Peidiwch â chynnwys y ceiniogau.	£	£

Withdrawn

Defnyddiwch y daflen hon i'ch helpu i gyfrifo eich incwm. Peidiwch â'i hanfon atom ni – dylech ei chadw ar gyfer eich cofnodion.

Os gwnaethoch daliadau Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn i gynllun pensiwn personol cofrestredig neu os cawsoch golledion masnachu

Darllenwch TC825 'Working Sheet for tax credits relief for Gift Aid donations, pension contributions and trading losses'. Dilynwch gamau 2 a 3 i gyfrifo cyfanswm eich colledion a'ch rhyddhad. Bydd y daflen waith yn rhoi gwybod i chi'r hyn i'w ddidynnu a'r hyn i'w roi ar eich ffurflen gais. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch gyda hwn, ffoniwch ein llinell gymorth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am TC825 a dilynwch Gam 2.

5.5 Incwm o hunangyflogaeth am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018

Os nad ydych wedi llenwi eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2017 i 2018

Mae'n rhaid i chi amcangyfrif eich elw ac ateb 'Ydw' i gwestiwn 5.7. Pan fyddwch yn gwybod yn union faint o elw a wnaethoch, rhowch wybod i ni.

Os ydych wedi llenwi eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2017 i 2018

Nodwch gyfanswm eich elw ar gyfer y flwyddyn ym mlwch 5.5. Dylech ddefnyddio ffigur yr elw a roddwyd ar eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2017 i 2018:

Os oes gennych fwy nag un busnes

Adiwch at ei gilydd:

- yr elw wedi'i addasu o bob un o'ch tudalennau Hunangyflogaeth
- eich cyfran chi o elw'r bartneriaeth a addaswyd o bob un o'ch tudalennau Partneriaeth (byr neu lawn)

Os oedd gan eich busnes incwm neu elw arall

Dylech gynnwys y rhain yn y swm ar gyfer blwch 5.5 (er enghraifft, incwm rhent)

Os ydych yn defnyddio dull cyfartalu am eich bod yn ffermwr, garddwr masnachol neu grëwr gweithiau llenyddol neu artistig

Ni allwch ddefnyddio cyfartalu yn eich cais am gredydau treth. Felly, mae'n rhaid i chi addasu cyfanswm eich elw i ddileu'r cyfartalu.

Byddwch wedi nodi ffigur ar:

- dudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 72
- dudalennau partneriaeth (byr neu lawn), blwch 11

eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2017-2018

Os bydd y ffigur yn y naill flwch neu'r llall

- yn cynyddu eich elw, didynnwch y swm hwn o gyfanswm eich elw.
- yn gostwng eich elw, adiwch y swm hwn at gyfanswm eich elw.

Yn achos rhai ffermwyr, caniateir cyfartalu rhai elfennau elw. Am ragor o wybodaeth ewch i GOV.UK a chwiliwch am WTC2.

Os oeddech yn masnachu y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn 2017 i 2018

Dylech nodi eich elw mewn punnoedd Prydeinig, nid yn yr arian tramor.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch â hyn, ewch i GOV.UK a chwiliwch am gyfraddau cyfnewid CThEM.

Withdrawn

5.6 Taflen Waith – Incwm arall am y flwyddyn o 6 Ebrill 2017 i 5 Ebrill 2018

Ffoniwch ein llinell gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.

	Chi	Eich partner
Incwm o gynilion a buddsoddiadau, gan gynnwys difidendau. Nodwch y swm gros (cyn didynnu treth). Peidiwch â chynnwys buddsoddiadau sydd wedi'u heithrio rhag treth megis ISAs. Cofiwch gynnwys swm llawn 'enillion digwyddiad trethadwy' o bolisi yswiriant bywyd.	£	£
Pensiynau'r Wladwriaeth (gan gynnwys Pensiwn Gwraig Weddw, Lwfans Mam Weddw, Lwfans Rhiant Gweddw a Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol). Peidiwch â chynnwys bonws Nadolig na thaliad tanwydd gaeaf.	£	£
Pensiynau eraill y Deyrnas Unedig yr ydych yn eu cael, gan gynnwys pensiynau galwedigaethol neu flwydd-daliadau (ond nid pensiynau rhyfel sydd wedi'u heithrio rhag treth). Defnyddiwch eich P60 am fanylion eich pensiwn galwedigaethol. Ffoniwch ein llinell gymorth os yw eich pensiwn yn cynnwys swm ychwanegol ar gyfer salwch neu anaf sy'n gysylltiedig â gwaith.	£	£
Dylech gynnwys yr holl incwm trethadwy o eiddo. Wrth gyfrifo'ch treuliau a ganiateir ar gyfer dibenion credydau treth, dylech ddidynnu 100% o'ch costau ariannol. Peidiwch â chynnwys incwm o'r cynllun rhentu ystafell. Os gwnaeth eich eiddo sydd wedi'i rentu gollad, mae taflen waith ar gael ar-lein i gyfrifo eich colledion masnachu. Ewch i GOV.UK a chwilio am TC825.	£	£
Incwm o ymddiriedolaethau, setliadau ac ystadau. Cewch fanylion ar dystysgrif R185, y dylai'r ymddiriedolwyr neu'r gweinyddwyr fod wedi'i rhoi i chi.	£	£
Incwm o dramor, er enghraifft, incwm o fuddsoddiadau ac eiddo tramor. Dylech gynnwys y swm gros mewn punnoedd Prydeinig, p'un a gafodd ei anfon i'r Deyrnas Unedig ai peidio. Os ydych yn cael pensiwn o dramor, dylech ei gynnwys yn y fan hon. Didynnwch unrhyw dâl neu gomisiwn a godwyd gan y banc y gwnaethoch ei dalu wrth drosi arian tramor.	£	£
Incwm tybiannol. Mae hyn yn cynnwys pethau fel difidendau stoc, neu incwm y gallech fod wedi'i gael ond gwnaethoch ddewis peidio â'i gael. Ffoniwch ein llinell gymorth os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn.	£	£
Cyfanswm	£	£

Adiwch y cyfansymiau ar eich cyfer chi a'ch partner at ei gilydd.	A £
Tynnwch £300 oddi ar y cyfanswm (Blwch A – £300 =). Os bydd hyn yn rhoi ffigur minws i chi, rhowch '0'.	B £
Os cawsoch chi neu eich partner Grant Oedolyn Dibynnol am fod yn fyfyriwr (neu yn yr Alban unrhyw blentyn neu oedolyn dibynnol am fod yn fyfyriwr) neu incwm trethadwy amrywiol na chafodd ei gynnwys uchod, nodwch ef yma.	C £
Adiwch y ffigurau ym mlychau (B) ac (C) ynghyd a nodwch y swm hwn ym mlwch 5.6.	B + C £

Withdrawn

Defnyddiwch y daflen hon i'ch helpu i gyfrifo eich incwm. Peidiwch â'i hanfon atom ni – dylech ei chadw ar gyfer eich cofnodion.

Tudalen 9 o'ch ffurflen gais - Manylion talu

Peidiwch ag anghofio rhoi gwybod i ni pa mor aml yr ydych am i ni eich talu – gallai hynny beri oedi gyda'ch cais.

6.1 Dewiswch pa mor aml yr ydych am i ni dalu Credyd Treth Plant i chi

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, mae Credyd Treth Plant yn disodli rhan o'r budd-daliadau hynny. Bydd yn rhaid i chi benderfynu p'un a ydych am gael eich taliadau bob wythnos o hyd.

6.2 Cyplau yn unig – pa un ohonoch yw'r prif ofalwr?

Os ydych yn hawlio fel cwpl, penderfynwch pwy yw'r prif ofalwr. Os mai dim ond un ohonoch sy'n gweithio, fel arfer yr un sydd gartref gyda'r plant fydd y prif ofalwr.



RHAN 6 MANYLION TALU

Hawlio credydau treth
Os oes plant gennych - llenwch yr adran Credyd Treth Plant. Os ydych yn gweithio - llenwch yr adran Credyd Treth Gwaith.
Os oes plant gennych ac rydych yn gweithio - llenwch yr adran Credyd Treth Plant a'r adran Credyd Treth Gwaith.

CREDYD TRETH PLANT

Telir Credyd Treth Plant i'r prif ofalwr.
Y prif ofalwr yw'r person sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plant. Caiff ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Felly, sicrhewch eich bod yn llenwi'r manylion cyfrif hyn yn 6.5 i 6.9 ar dudalen 10. Gallwch ddewis cael eich talu bob wythnos neu bob 4 wythnos.

Cyplau
Rhowch wybod i ni pa un ohonoch yw'r prif ofalwr.
Cyn penderfynu gweler y nodiadau ar dudalen 17.

6.1 **Pa mor aml yr ydych am i ni dalu Credydau Treth Plant i chi.** Gweler y nodiadau ar dudalen 17.
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig
☐ Bob wythnos ☐ Bob 4 wythnos

6.2 **Cyplau yn unig – p'un ohonoch yw'r prif ofalwr?**
Gweler y nodiadau ar dudalen 17. Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig
☐ Chi ☐ Eich partner
Sicrhewch fod y person a ddewiswch yn rhoi manylion y cyfrif yn y golofn briodol ar dudalen 10.

CREDYD TRETH GWAITH

Telir Credyd Treth Gwaith i berson sy'n gweithio.
Caiff ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Felly, sicrhewch eich bod yn llenwi'r manylion cyfrif hyn yn 6.5 i 6.9 ar dudalen 10. Gallwch ddewis cael eich talu bob wythnos neu bob 4 wythnos.

Cyplau lle y mae'r ddau ohonoch yn gweithio
Gallwn dalu Credyd Treth Gwaith i un ohonoch yn unig. Rhaid i chi ddewis pa un ohonoch y dylem ei dalu'r thalu.
Cyn penderfynu gweler y nodiadau ar dudalen 17.

6.3 **Pa mor aml yr ydych am i ni dalu Credyd Treth Gwaith i chi.** Gweler y nodiadau ar dudalen 17.
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig
☐ Bob wythnos ☐ Bob 4 wythnos

6.4 **Cyplau lle y mae'r ddau ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy.**
Dewiswch pa un ohonoch a gaiff Credyd Treth Gwaith.
Gweler y nodiadau ar dudalen 17.
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig
☐ Chi ☐ Eich partner
Sicrhewch fod y person a ddewiswch yn rhoi manylion y cyfrif yn y golofn briodol ar dudalen 10.

Withdrawn

6.3 Dewiswch pa mor aml yr ydych am i ni dalu Credyd Treth Gwaith i chi

Dylech roi tic yn y blwch hwn dim ond os ydych chi a/neu eich partner yn gweithio.

6.4 Cyplau gyda'r ddau yn gweithio 16 awr neu fwy'r wythnos

Dim ond i un ohonoch y gallwn dalu Credyd Treth Gwaith. Felly, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni pwy y dylem ei dalu. Credydau Yswiriant Gwladol - petai un ohonoch yn gallu hawlio credydau, dylech ddewis yr unigolyn hwnnw i wneud yn siŵr ei fod yn cael credydau Yswiriant Gwladol y gallai fod â hawl iddynt.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/national-insurance-credits

Tudalen 10 o'ch ffurflen gais - Manylion eich cyfrif banc

Cyplau – rhowch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.

Llenwch fanylion eich cyfrif yn ofalus. Os ydynt yn anghywir, bydd oedi o ran eich taliadau.

6.5 Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif
Rhowch enw'r cyfrif yn union fel y mae'n ymddangos ar eich cerdyn banc neu gerdyn arian, cyfriflenni, paslyfr neu lyfr sieciau. Os mai cyfrif ar y cyd sydd gennych, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r ddau enw.

Os ydych am ddefnyddio cyfrif nad yw yn eich enw chi, er enghraifft, enw eich partner neu unigolyn arall, cewch wneud hynny. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cael yr arian gan yr unigolyn hwnnw.

Byddwch yn dal i fod yn gyfrifol am ordaliadau.

6.6 Rhif y cyfrif
Fel arfer, mae rhif eich cyfrif yn cynnwys 8 digid ac fe'i ddangosir ar eich cerdyn banc neu gerdyn arian, cyfriflenni neu lyfr sieciau. Dylech gynnwys seroau (er enghraifft, 00123456).

Os yw rhif eich cyfrif yn fwy nag 8 digid, gallai fod oherwydd bod eich cyfrif gyda chymdeithas adeiladu neu fanc a oedd yn arfer bod yn gymdeithas adeiladu.


RHAN 6 MANYLION TALU parhad

Rydym yn talu credydau treth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®.
Cyplau - dylech lenwi'r ddwy ochr o'r adran hon dim ond os ydych am i'ch Credyd Treth Plant a'ch Credyd Treth Gwaith gael eu talu i gyfrifon ar wahân.
Mae'n rhaid i chi roi manylion y cyfrif yr ydych am i ni dalu credydau treth iddo yn 6.5.
Gweler y nodiadau ar dudalen 18.
Gallwch ddefnyddio cyfrif sydd gennych eisoes - bydd manylion y cyfrif ar eich cerdyn banc neu arian parod, llyfr sieciau, llyfr banc neu gyfriflen.
Os yw'ch cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, neu gyn-gymdeithas adeiladu, efallai y bydd yn rhaid i chi roi manylion eich rhif rhôl neu eich cyfeirnod ym mlwch 6.8. Bydd y rhif rhôl neu'r cyfeirnod ar lyfr neu gyfriflen eich banc neu gymdeithas adeiladu. Mae'n rhaid i chi hefyd roi manylion rhif y cyfrif a'r cod didoli ym mlychau 6.6 a 6.7. Gweler y nodiadau ar dudalen 18.
Os oes gennych gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post® cyfeiriwch at eich 'Llythyr Croeso' neu'ch cyfriflen i gael manylion rhif eich cyfrif a'ch cod didoli. Gadewch flwch 6.8 yn wag a rhowch 'SWYDDFA'R POST' ym mlwch 6.9.
Os nad oes gennych gyfrif, gweler y nodiadau ar dudalen 18.

CHI – MANYLION CYFRIF
6.5 **Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif.** Gweler y nodiadau ar dudalen 18
6.6 **Rhif y cyfrif**
6.7 **Cod didoli**
6.8 **Os ydych wedi rhoi manylion cyfrif cymdeithas adeiladu, rhowch y rhif rhôl neu'r cyfeirnod, os oes un.** Rhowch unrhyw gysylltnodau neu slaesau a ddangosir fel rhan o'r rhif. Er enghraifft, 1756 - 789808746 neu 475869607/8797. Rhowch y cysylltnod neu'r slaes yn ei flwch ei hun
6.9 **Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu** Ar gyfer cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®, rhowch SWYDDFA'R POST

EICH PARTNER – MANYLION CYFRIF
6.5 **Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif** Gweler y nodiadau ar dudalen 18
6.6 **Rhif y cyfrif**
6.7 **Cod didoli**
6.8 **Os ydych wedi rhoi manylion cyfrif cymdeithas adeiladu, rhowch y rhif rhôl neu'r cyfeirnod, os oes un.** Rhowch unrhyw gysylltnodau neu slaesau a ddangosir fel rhan o'r rhif. Er enghraifft, 1756 - 789808746 neu 475869607/8797. Rhowch y cysylltnod neu'r slaes yn ei flwch ei hun
6.9 **Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu** Ar gyfer cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®, rhowch SWYDDFA'R POST

Withdrawn

Os nad oes gennych gyfrif, bydd yn rhaid i chi agor un.
Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/how-to-have-your-benefits-paid

6.7 Cod didoli
Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r cod didoli a ddangosir ar eich cerdyn banc neu gerdyn arian, neu gyfriflenni o'ch banc neu eich cymdeithas adeiladu.

6.8 Rhif rôl neu gyfeirnod
Os yw eich cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, neu fanc a oedd yn arfer bod yn gymdeithas adeiladu, efallai y bydd gennych gyfeirnod ychwanegol.
Gelwir y rhif hwn yn:
- rhif rôl
- cyfeirnod cyfrif, neu
- rhif cyfrif

Os nad ydych chi'n siŵr pa rifau i'w nodi holwch eich banc neu gymdeithas adeiladu.

Ydych chi'n gymwys i gael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith?

Os ydych yn bodloni pob un o'r 3 amod canlynol, gallech fod yn gymwys i gael mwy o Gredyd Treth Gwaith.

Amod 1

Rydych chi'n gweithio 16 awr neu ragor yr wythnos fel arfer.

Amod 2

Mae gennych chi anabledd sy'n eich rhoi o dan anfantais o ran cael swydd.

Mae'n rhaid i o leiaf un o'r disgrifiadau canlynol fod yn berthnasol i chi.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn am enw rhywun sy'n gysylltiedig â'ch gofal, fel therapydd galwedigaethol, nyrs gymunedol, nyrs ardal neu feddyg, a all gadarnhau sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch chi.

Anabledd corfforol

1. Wrth sefyll, ni allwch gadw eich cydbwysedd oni bai eich bod yn dal eich gafael ar rywbeth drwy'r amser.
2. Ni allwch gerdded yn barhaus am bellter o 100 metr ar hyd tir gwastad heb stopio neu deimlo poen difrifol - hyd yn oed pan fyddwch yn defnyddio eich cymorth cerdded arferol, fel ffyn bagl, ffrâm gerdded, ffon gerdded, prosthesis neu rywbeth tebyg.
3. Ni allwch ddefnyddio'r naill law na'r llall y tu ôl i'ch cefn fel petaech yn gwisgo siaced neu'n rhoi eich crys yn eich trowsus.
4. Ni allwch ymestyn y naill fraich na'r llall o'ch blaen, fel petaech yn ysgwyd llaw â rhywun, heb anhawster.
5. Ni allwch godi eich dwylo i fyny at eich pen, fel petaech yn gwisgo het, heb anhawster.
6. Gan na allwch ddefnyddio eich dwylo yn iawn, ni allwch godi darn o arian sy'n 2.5 centimetr neu lai mewn diamedr, megis darn 10 ceiniog, gydag un law.
7. Rydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio eich dwylo neu eich breichiau i godi jwg 1 litr llawn, ac arllwys ohono i mewn i gwpan.
8. Ni allwch droi'r naill law na'r llall 180 gradd i'r ochr.

Nam ar y golwg

1. Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr - rydych wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ar gofrestr a gasglwyd gan Awdurdod Lleol.
2. Os ydych yn byw yn yr Alban - ac wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, ac rydych hefyd wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ar gofrestr sy'n cael ei gynnal gan, neu ar ran, cyngor rhanbarthol neu ynys.
3. Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon - ac wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, ac rydych hefyd wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ar gofrestr sy'n cael ei gynnal gan, neu ar ran, Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
4. Ni allwch ddarllen print 16 pwynt os ydych dros 20 centimetr i ffwrdd, hyd yn oed os ydych yn gwisgo eich sbectol arferol

Mae hwn yn brint 16 pwynt. A allwch chi ddarllen hwn pan fyddwch dros 20 centimetr i ffwrdd?

Nam ar y clyw

1. Ni allwch glywed ffôn yn canu pan fyddwch yn yr un ystafell â'r ffôn, hyd yn oed os ydych yn defnyddio eich cymorth clyw arferol.
2. Rydych yn cael anhawster clywed beth y mae rhywun yn ei ddweud 2 fetr i ffwrdd hyd yn oed pan fydd yn siarad yn uchel mewn ystafell dawel ac rydych yn defnyddio eich cymorth clyw arferol.

Withdrawn

Anabledd arall

1. Mae pobl sy'n eich adnabod yn dda yn cael trafferth deall yr hyn rydych chi'n ei ddweud
2. Pan fydd rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda yn siarad â chi, rydych yn cael trafferth deall yr hyn y mae'r unigolyn dan sylw yn ei ddweud
3. O leiaf unwaith y flwyddyn, yn ystod oriau effro, rydych mewn coma neu'n cael ffit ac yn mynd yn anymwybodol
4. Mae gennych salwch meddwl yr ydych yn cael triniaeth reolaidd ar ei gyfer o dan oruchwyliaeth gweithiwr meddygol cymwys
5. Oherwydd anabledd meddyliol rydych yn aml yn ddryslyd neu'n anghofus
6. Ni allwch wneud y symiau adio a thynnu mwyaf syml
7. O ganlyniad i anabledd meddyliol rydych yn taro pobl neu'n difrodi eiddo neu'n methu ffurfio perthnasau cymdeithasol normal ag eraill
8. Fel arfer, ni allwch gwblhau diwrnod gwaith 8 awr neu wythnos waith 5 diwrnod oherwydd cyflwr meddygol neu boen dybryd ysbeidiol neu barhaol
9. O ganlyniad i salwch neu ddamwain, rydych mewn cyfnod o orffwys neu adfer. Nid yw hyn yn berthnasol i chi os ydych wedi bod yn cael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf

Amod 3

Rydych chi'n cael ar hyn o bryd, neu wedi bod yn cael, budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd.

Byddwch yn bodloni'r amod hwn os oes o leiaf un o'r 4 disgrifiad yn berthnasol i chi, neu:

- os oedd gennych hawl i elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith yn yr 8 wythnos diwethaf, ac rydych yn gwneud cais arall nawr
- os gwnaethoch fodloni disgrifiad 2 neu 3, neu ddisgrifiad 4 ar dudalen 21 yn eich cais cynharach

Disgrifiad 1 – rydych yn cael un o'r canlynol ar hyn o bryd:

- Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer
- Pensiwn Anabledd Rhyfel, gyda Lwfans Gweini Cyson neu Atodiad Symudedd ar eich cyfer
- cerbyd a ddarparwyd o dan y Cynllun Cerbyd i'r Anabl

Disgrifiad 2 – am o leiaf un diwrnod yn ystod y 6 mis diwethaf, rydych chi wedi cael un o'r rhain:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth pan fyddwch wedi cael y lwfans hwn am 28 wythnos neu ragor neu rydych wedi cael Tâl Salwch Statudol yn dilyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu ragor (Gweler Nodyn 1 isod)
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail gallu cyfyngedig i weithio ar ôl i 12 mis o hawl i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau ddod i ben
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi
- Cymhorthdal Incwm, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi
- Budd-dal Tai, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer

Nodyn 1: Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch adio ynghyd unrhyw gyfnodau pan gawsoch y canlynol:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ar yr amod nad oedd dros 12 wythnos rhyngddynt
- Tâl Salwch Statudol, ar yr amod nad oedd mwy nag 8 wythnos rhyngddynt
- Tâl Salwch Statudol ynghyd â chyfnodau pan gawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ar yr amod nad oedd mwy na 12 wythnos rhyngddynt

Disgrifiad 3 – rydych wedi bod yn 'hyfforddi ar gyfer gwaith' am o leiaf un diwrnod yn yr 8 wythnos diwethaf

Mae 'hyfforddi ar gyfer gwaith' yn golygu mynychu hyfforddiant sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth, fel yr hyn a ddarperir gan

- 'the Work Programme' yn y Deyrnas Unedig
- Dysgu Seiliedig ar Waith i Oedolion yng Nghymru
- cwrs yr oeddech yn ei fynychu am 16 awr neu fwy yr wythnos er mwyn dysgu medr ar gyfer swydd neu alwedigaeth.

Withdrawn

Yn yr 8 wythnos cyn i chi ddechrau hyfforddi ar gyfer gwaith mae'n rhaid eich bod wedi cael:

- Budd-dal Analluogrwydd a dalwyd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau am 28 wythnos neu fwy
- Tâl Salwch Statudol wedi ei ddilyn gan Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu ragor (Gweler Nodyn 2 isod)
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail gallu cyfyngedig i weithio ar ôl i 12 mis o hawl i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau ddod i ben

Nodyn 2: Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch adio ynghyd unrhyw gyfnodau pan gawsoch y canlynol:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân
- Tâl Salwch Statudol, cyn belled nad oeddent yn fwy nag 8 wythnos ar wahân
- Tâl Salwch Statudol, gyda chyfnodau pan gawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, cyn belled nad oedd dros 12 wythnos rhyngddynt ac y gwnaethoch fodloni'r amodau cyfrannu ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau ar y diwrnodau pan gawsoch Dâl Salwch Statudol

Disgrifiad 4 – mae pob un o'r 4 pwynt canlynol yn berthnasol i chi

1. Rydych chi wedi bod yn cael o leiaf un o'r budd-daliadau ym mlwch A neu B am 20 wythnos neu ragor (gweler Nodyn 3), ac fe gawsoch chi'r budd-dal hwn o fewn yr 8 wythnos ddiwethaf
2. Mae eich anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes
3. Mae eich enillion gros (cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) o leiaf 20% yn llai na'r hyn oeddent cyn i chi gael yr anabledd
4. Mae eich enillion gros (cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) o leiaf £15 yr wythnos yn llai na'r hyn oeddent cyn i chi gael yr anabledd

A

- Tâl Salwch Statudol
- Tâl Salwch Galwedigaethol
- Budd-dal Analluogrwydd a delir ar y gyfradd is fyrdymor
- Cymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd i weithio
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail analluogrwydd i weithio

B

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfarnwyd ar sail gallu cyfyngedig i weithio.

Nodyn 3: Does dim rhaid i'r 20 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd gyfnodau ar wahân pan gawsoch y budd-daliadau a'r credydau ym mlwch:

- **A**, cyhyd nad oeddent fwy na 8 wythnos ar wahân
- **B**, cyhyd nad oeddent fwy na 12 wythnos ar wahân

Am ragor o wybodaeth am gredydau treth ac anabledd, ewch i GOV.UK a chwilio am TC956.

Withdrawn

Penodai Credydau Treth
Rydych yn benodai os ydych wedi eich penodi i weithredu gan un neu fwy o'r canlynol:
- llys barn
- yr Adran Gwaith a Phensiynau
- yr Adran Cymunedau (Gogledd Iwerddon)
- y ni, pan fyddwch wedi gwneud cais blaenorol ar ran yr unigolyn neu'r bobl sy'n gwneud cais.

Nodwch y dyddiad y cawsoch eich penodi a phwy a'ch penododd.

Os ydych yn gweithredu fel penodai am y tro cyntaf, esboniwch pam na all yr un sy'n gwneud y cais gwblhau a llofnodi'r ffurflen. Byddwn wedyn yn ystyried p'un a ddylid eich penodi ai peidio. Cyn i ni benderfynu, efallai y bydd yn rhaid i ni gysylltu â chi.

Nid ydych yn benodai os ydych yn helpu rhywun i lenwi'r ffurflen ac mae'n deall beth yr ydych chi'n ei wneud.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn helpu rhywun i lenwi'r ffurflen oherwydd eich bod:
- yn gweithio i sefydliad hawliau lles megis Cyngor ar Bopeth
- yn ei helpu fel ffrind neu gymydog neu berthynas
- yn cyfieithu'r cwestiynau i iaith arall iddynt am nad ydynt yn siarad nac yn deall llawer o Gymraeg neu Saesneg

Er mwyn helpu rhywun yn y modd hwn, mae'n rhaid i chi fod yn gyfryngwr.

Os yw'r un sy'n hawlio yn deall y Datganiad ac yn gallu ei lofnodi, yna dylai wneud hynny.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/getting-help-with-your-tax-credits-claim/appointee

Ein bwriad yw delio â'ch cais cyn pen 3 wythnos o'i gael, ond gall gymryd hyd at 5 wythnos i chi gael eich hysbysiad o benderfyniad.

Os yw eich amgylchiadau yn newid yn y cyfamser, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith.

Os byddwn yn talu gormod i chi gan eich bod wedi oedi cyn rhoi gwybod i ni o unrhyw newidiadau, byddwn yn gofyn i chi ad-dalu unrhyw gredydau treth a ordalwyd.

Credyd Cynhwysol

Bydd credydau treth yn cael eu disodli'n raddol gan Gredyd Cynhwysol. Ni allwch hawlio Credyd Cynhwysol a chredydau treth ar yr un pryd.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â'n llinellau cymorth am ragor o wybodaeth.

Cymraeg

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau
Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/eichsiarter

Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch
Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:
- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/data-protection-act-dpa-information-hm-revenue-and-customs-hold-about-you

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch chi, ewch i www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits

Fel arall, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900, neu Ffôn Testun 0345 300 3909 (Saesneg yn unig)

Ar gyfer ein horiau agor, ewch i www.gov.uk/contact-hmrc

Canolfan Cyswllt Cymraeg
0300 200 1900
08:30 - 17:00, Dydd Llun - Dydd Gwener

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Ebrill 2018 © Hawlfraint y Goron 2018

CThEM 04/18 7002554 F29123

Withdrawn